

# Rhaglen Gyflawn



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CONWY  
CYNGOR SWAIDESTRAF SIROL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR SWAIDESTRAF SIROL  
wrecsam

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b. DYDD MERCHER, 23AIN TACHWEDD, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd, 17 Tachwedd 2022)

## **CYD-BWYLLGOR GWE**

### **Aelodau a phleidlais**

#### Y Cynghorwyr

Cynghorydd Ieuan Williams  
Cynghorydd Gill German  
Cynghorydd Julie Fallon  
Cynghorydd Ian Roberts  
Cynghorydd Phil Wynn  
Cynghorydd Beca Brown

Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Gwynedd

### **Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais**

Dylan Davies  
Delyth Roberts  
Jonathan Morgan  
Alison Fisher  
Jennie Downes

Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd  
Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd  
Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig  
Cynrychiolydd Llywodraethwr  
Yr Eglwys yng Nghymru

### **Swyddogion Heb Bleidlais**

Dr Lowri Brown  
Claire Homard  
Garem Jackson  
Marc Berw Hughes  
Karen Evans  
Geraint Davies

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Sir Ddinbych

### **Swyddogion yn bresennol**

Lowri Evans  
Dewi Morgan  
Sion Huws  
Arwyn Thomas  
Alwyn Jones  
Bethan Eleri Roberts  
Gareth Williams  
Graham Boase

Awdurdod Lletyol  
Awdurdod Lletyol  
Awdurdod Lletyol  
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE  
Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE  
Bwrdd ymgynghorol GwE  
Cyngor Sir Ddinbych

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau o absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYG

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryg ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 05.10.2022 fel rhai cywir.

## 5. CYMERADWYO ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL AR GYFRIFON GWE

11 - 86

Cyflwyno –

- Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;
- Llythyr Cynrychiolaeth.

## 6. CYLLIDEB GWE 2022-2023 - ADOLYGIAD CHWARTER 2

87 - 91

Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.

## 7. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2022-2023 GWE - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 2

92 - 126

Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 2 – Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

## 8. BWRIAD I ADOLYGU TREFNIADAU GWEITHREDOL A'R STRWYTHUR STAFFIO PRESENNOL

127 - 130

Hysbysu'r Cyd-bwyllgor am y bwriad i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol.

## 9. LLYTHYR Y CYDBWYLLGOR I'R GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

131 - 137

Darparu cofnod ffurfiol i'r Cyd-Bwyllgor, yn dilyn trafodaethau a phenderfyniad yn y cyfarfod blaenorol ar 05/10/2022, yng nghyswllt y llythyr a anfonwyd at y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 11/10/2022.

---

## CYD-BWYLLGOR GWE – 05/10/22

---

### Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:** Julie Fallon (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Beca Brown (Cyngor Gwynedd).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Dr Lowri Brown (Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac Owen Owens (Cyngor Gwynedd).

### Swyddogion yn bresennol:

**GwE –** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr) a Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad).

**Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol -** Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Hywyn Lewis Jones (Cyfrifydd Grŵp), Gwion Ellis Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### Yn bresennol ar gyfer eitem 7:

Ruth Thackray: Uwch Arweinydd – Cwricwlwm i Gymru

### Yn bresennol ar gyfer eitem 8:

Elfyn Jones: Arweinydd Rhanbarthol Uwchradd GwE

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Is-Gadeirydd Gill German (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

## 4. COFNODION

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar y 13eg o Orffennaf, 2022 yn gywir.

## **5. CYLLIDEB GwE 2022/2023 – MONITRO CHWARTER 1**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletyol a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Adroddwyd bod adolygiad cychwynnol o'r gyllideb yn rhagweld tanwariant net o £116,306.00 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23).
- Esboniwyd bod salwch a throsiant staff, secondiadau a chyfnodau mamolaeth yn ogystal â thrafferthion recriwtio wedi cyfrannu tuag at y tanwariant hwn.
- Eglurwyd bod nifer o ymweliadau a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol erbyn hyn ac felly mae GwE yn gwario llai o arian ar gludiant nag y disgwyliwyd.
- Cadarnhawyd bod cronfa cyllideb GwE yn £437,503.00 ar gychwyn y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23) ac amcangyfrifwyd y bydd cronfa cyllideb GwE yn £553,808.00 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23).

### **PENDERFYNWYD**

- Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad ar gyfer monitro Cyllideb GwE -Chwarter 1 2022-2023.

## **6. CYNLLUN BUSNES GWE 2022-2023 – ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Eglurwyd bod GwE wedi datblygu 31 o gynlluniau busnes sy'n efelychu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Pwysleisiwyd bod Chwarter 1 wedi cael eu dreulio yn datblygu'r cynlluniau busnes er mwyn iddynt fod yn weithredol hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2022/23).
- Adroddir ar gynnydd yn chwarterol i'r Awdurdodau Lleol ar y blaenoriaethau rhanbarthol gan hefyd rhoi trosolwg awdurdod lleol penodol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â meysydd gwelliant rhanbarthol GwE, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Bod ysgolion wedi bod yn canolbwyntio yn fawr ar barhau i ddarparu addysg o'r safon gorau posibl drwy gydol pandemig Covid-19. Cadarnhaodd eu bod yn parhau i wneud hynny drwy sicrhau eu bod yn diogelu iechyd disgyblion a staff. Oherwydd bod y bygythiad o'r salwch yn parhau i fod yn bresennol, mae ysgolion angen amser i fagu hyder bod effaith Covid-19 am fod yn is yn y dyfodol.

### **PENDERFYNWYD**

- Cymeradwyo'r adroddiad ar gyfer monitro chwarter 1 - Cynllun Busnes GwE 2022-2023.

## **7. Y DAITH DDIWYGIO: ADRODDIAD CYNNYDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch Arweinydd – Cwricwlwm i Gymru a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Soniwyd bod cynnwys yr adroddiad yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn datgan sut roedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm

newydd a ddaeth i rym ym mis Medi 2022. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi sylw penodol i dymor yr haf cyn i'r cwricwlwm ddod i rym.

- Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi rhannu 6 cam er mwyn paratoi at y newid hwn i'r cwricwlwm a nodwyd bod ysgolion yn ymdopi yn dda gyda'r camau hynny.
- Ychwanegwyd bod adborth gan arweinwyr ysgolion yn cadarnhau bod angen cymryd camau ychwanegol er mwyn cyrraedd y targedau hyn yn enwedig wrth gysidro rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cyd-destun lleol.
- Mynegwyd bod ysgolion cynradd wedi ymgysylltu'n dda wrth baratoi at y cwricwlwm newydd a'u bod wedi cael eu cefnogi gan Gwricwlwm i Gymru drwy gyfresi o weithdai, webinarau a modelau.
- Esboniwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda ysgolion uwchradd eleni i ffocysu ar ddisgyblion oedd yn symud i flwyddyn 7, ac flwyddyn nesaf bydd y gwaith yn ffocysu ar flwyddyn 7 ac 8.
- Cadarnhawyd fod ysgolion uwchradd yn edrych ar hunaniaeth leol er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei fewnosod drwy dulliau addas.
- Pwysleisiwyd fod addysgeg a hunanasesiadau yn newid o ysgol i ysgol a bod strategaethau yn cael eu datblygu'n rheolaidd.. Mae cymorth yn cael ei ddarparu i annog llesiant i bawb ac anogir i ysgolion gydweithio er mwyn creu rhwydwaith o staff sy'n gallu cefnogi ei gilydd drwy'r daith diwygio hwn.

Ymhelaethodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ar y pwyntiau hyn gan nodi'r prif bwyntiau isod:

- Mynegwyd dyhead i gyflwyno diweddariad o'r cwricwlwm i aelodau newydd yr awdurdodau lleol yn dilyn etholiad fis Mai 2022, neu i holl aelodaeth y cynghorau lleol er mwyn eu diweddaru ar ddatblygiadau'r cwricwlwm.
  - Mewn ymateb i'r sylw yma, nododd y Cadeirydd efallai byddai cynnal diweddariad ar lein yn opsiwn er mwyn diweddaru llawer o aelodau ar yr un adeg.
- Cyfeiriwyd at ofynion mesur cynnydd ac atebolrwydd ysgolion gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE. Nodwyd bod strwythur, siâp a chyfeiriad y cwricwlwm yn anodd ei bennu, ac felly mae ysgolion angen amser i fagu hyder ar y dull gorau i'w ymgorffori gan fanteisio ar yr agweddau sydd fwyaf perthnasol iddynt. Ychwanegwyd y byddai pontio a chydweithio naturiol yn digwydd drwy anghenion lleol, daearyddol a phrofiadau dysgu wrth i amser fynd yn ei flaen.

Mewn ymateb i ymholiad am yr amserlen o ran pryd bydd y dulliau asesu'n ddigon aeddfed i allu dehongli os ydi'r dulliau addysgu hyn yn fyw llwyddiannus na'r dulliau blaenorol, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Mi fydd yn beth amser i allu cymharu hyn. Aethpwyd ymlaen i egluro bod hyn yn bennaf oherwydd bod y systemau newydd yn edrych ar lesiant, profiadau dysgu a'r profiadau yn erbyn y pedwar diben. Eglurwyd bod angen cael trafodaethau manwl yn y dyfodol er mwyn ceisio mabwysiadu dull teg o asesu gan gofio fod y cwricwlwm yn ddull lleol ei natur a bod agweddau gwahanol yn effeithio ar leoliadau gwahanol o fewn yr amrywiol awdurdodau lleol. Eglurwyd hefyd y byddai angen cyngor ac arweiniad gwleidyddol ynglŷn â'r mater hwn.

## PENDERFYNWYD

- Nodi a derbyn yr adroddiad sy'n amlygu paratodau ysgolion i fabwysiadu Cwricwlwm i Gymru yn sgil agenda adnewyddu a diwygio.

## 8. RHAGLEN WAITH GwE YN YSTOD TYMOR YR HYDREF A'R GWANWYN 2022 - 2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Rhanbarthol Uwchradd GwE a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Eglurwyd bod y cydbwyllgor eisoes yn ymwybodol o ddisgwyliadau a gofynion y canllawiau gwella ysgolion cenedlaethol newydd. Atgoffwyd bod GwE, y Llywodraethwyr ac Aelodau Lleol yn gyfrifol am ddal y gyfundrefn yn atebol ar y lefel lleol a bod Estyn yn rhannu'r un cyfrifoldebau yn rhanbarthol a chenedlaethol.
- Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn amlygu'r rhaglen waith ar gyfer y tymor hwn yn ogystal â'r tymhorau sy'n dilyn er mwyn cefnogi pob ysgol i ymateb i ofynion y fframwaith newydd.
- Cadarnhawyd bod yr adroddiad wedi cael ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli GwE ac ymgynghorwyd â Phenaethiaid rhanbarthol mewn Fforymau Strategol ac yng Nghynhadledd GwE i uwch arweinwyr yn Venue Cymru ar 22 a 23 Medi 2022.
- Rhoddwyd sylw manwl i'r canllawiau newydd ar gyfer gwella ysgolion gan nodi'r pwyntiau canlynol:
  - Disgwylir i ysgolion feddu ar brosesau hunan-arfarnu a hunanwerthuso cadarn yn ogystal â'r mecanwaith ar gyfer gwella. Disgwylir hefyd bod gan ysgolion brosesau ar gyfer cynllunio a chynnal gwelliannau.
  - Eglurwyd nad yw ysgolion ar eu pen eu hunain gyda hyn gan y bydd yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn sicrhau fod ganddynt gynhaliath er mwyn cynnal gwelliannau.
  - Esboniwyd mai un o brif ddyletswyddau ALI, GwE ac Estyn ydi gwerthuso'r gweithdrefnau hyn a'u gwella yn effeithiol. Golyga hyn fod yn rhaid cael system atebolrwydd clir er mwyn i bawb wybod beth sydd angen ei weithredu a pha ymyrraeth ychwanegol sydd ei angen.
  - Pwysleisiwyd bod gweithdrefnau arfarnu a gwelliannau wedi newid dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgil y pandemig ac o'r herwydd nid yw'r rhaglen waith mor syml ag y mae'n edrych ar yr olwg gyntaf. Deilliai hyn o'r ffaith fod ysgolion wedi wynebu heriau dwys iawn i sicrhau fod plant y rhanbarth yn parhau i dderbyn addysg o safon, yn saff. Golyga hyn fod addysgu o safon uchel, llesiant ac iechyd a diogelwch wedi bod yn flaenoriaeth dros y ddwy flynedd diwethaf yn hytrach na diweddarau fframweithiau arfarnu.
  - Rhannwyd diolchiadau penaethiaid rhai ysgolion y rhanbarth am safiad y Cydbwyllgor, sydd wedi helpu i sicrhau mai asesiadau yr athrawon oedd yn asesu

cyflawniad y disgyblion o fewn y cyfnod hwn, gan ei bod wedi gweithredu fel system effeithiol iawn drwy gyfnod ansicr.

- Nodwyd bod Estyn bellach wedi cychwyn ail-ymweld ag ysgolion i gynnal arolygiadau, a nodwyd y prif bwyntiau isod:
  - Nad ydi fframweithiau arolygu Estyn wedi cael eu diwygio llawer ers cyn argyfwng Covid-19.
  - Eglurwyd bod ysgolion dal yn ymdopi gyda phroblemau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig megis presenoldeb, lles, trosiant staff a cholled sgiliau sylfaenol.
  - Er mwyn cefnogi ysgolion ar eu taith wella bydd pob ysgol yn derbyn cynllun cymorth unigryw fydd yn amlygu y gefnogaeth fwyaf priodol ar eu cyfer.

Rhoddyd cyfle i aelodau'r Cydbwyllgor i rannu sylwadau a holi cwestiynau:

- Cytunwyd bod angen cydnabod yr heriau newydd sy'n deillio o'r pandemig. Cydnabuwyd bod angen i arolygiadau edrych ar ysgolion yn unigol. Pwysleisiwyd bod arolygiadau, yn gyffredinol, yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.
- Nodwyd bod ysgolion hefyd yn delio gyda heriau newydd fel llesiant staff a disgyblion yn ogystal â materion fel y cynnydd mewn costau byw. Rhaid cofio bod ysgolion wedi tyfu i fod yn hybiau cymunedol mewn sawl ardal a bod maes addysg yng nghanol cyfnod digynsail.
- Cynigwyd y byddai'n ddefnyddiol i gynnig hyfforddiant i lywodraethwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y Fframwaith Gwella Ysgolion newydd.
- Soniwyd y byddai'n ddefnyddiol derbyn mewnbwn gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar y materion hyn gan fod cryn amser cyn gellir mesur llwyddiant y gweithdrefnau newydd a bod llesiant staff a disgyblion ar lefelau pryderus iawn ar hyn o bryd.

## **PENDERFYNWYD**

- Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad sy'n amlinellu prif ffocws Rhaglen Waith GwE yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn 2022-23.
- Ysgrifennu at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn mewnbwn.
- Trefnu cyfarfod gydag Estyn er mwyn trafod y materion hyn ymhellach.

## **9. CYNHADLEDD RANBARTHOL TYMOR YR HYDREF GwE**

Cyflwynwyd yr adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Cafwyd ymateb rhagorol i'r gynhadledd, gyda thua 500 o bobl yn mynychu dros y ddau ddiwrnod. Dyma'r gynhadledd gyntaf i GwE ei gynnal yn dilyn y cyfnodau clo.
- Rhoddyd crynodeb o gynnwys y gynhadledd i gynnwys:



- Sgwrs gan Dafydd Iwan i annog miliwn o siaradwyr Cymraeg.
- Gweithdai ymarferol.
- Sesiynau holi ac ateb.
- Cyflwyniad gan yr Athro Graham Donaldson.
- Ychwanegwyd bod pwyslais mawr wedi ei roi ar lesiant unigolion, arweinwyr a staff yn ogystal â'r proses addysgu ôl-Covid drwy gydol y gynhadledd.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Cydbwyllgor i rannu sylwadau a holi cwestiynau:

- Mynegwyd diolchiadau i'r tîm busnes oedd wedi gwneud yr holl drefniadau i gynnal y gynhadledd ac eiliwyd bod yr adborth sy'n cyrraedd yr Aelodau yn gadarnhaol iawn.
- Gofynnwyd os oedd modd rhannu recordiad o araith yr Athro Graham Donaldson i'w rannu gyda'r Aelodau a phobl eraill nad oedd yn gallu bod yn bresennol, oherwydd yr adborth cadarnhaol.

Mewn ymateb i'r ymholiad am araith yr Athro Donaldson, nododd Reolwr Gyfarwyddwr GwE y gall GwE gysylltu ag o i weld os yw hyn yn bosib.

## **PENDERFYNWYD**

- Derbyn a nodi'r adroddiad ar gynhadledd ranbarthol GwE.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 11:50yb.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

GwE: Cyd-Bwyllgor 23/11/22



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding

<b>CYFARFOD</b>	Cyd-Bwyllgor GwE
<b>DYDDIAD</b>	23 Tachwedd 2022
<b>TEITL</b>	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac Archwiliad perthnasol
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"><li>• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;</li><li>• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;</li><li>• Llythyr Cynrychiolaeth.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn a nodi'r adroddiad ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2021/22, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Cyd-Bwyllgor.
<b>AWDUR</b>	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 13 Gorffennaf o Gyd-Bwyllgor GwE:

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## **2. CYFRIFON 2021/22**

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2021/22 i'r cyfarfod 13 Gorffennaf 2022 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro", ynghyd â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2021/22 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol.

## **3. ARCHWILIAD**

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru. Gweler bod paragraff 9 yn nodi "Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod" ar y datganiadau ariannol 2021/22.

## **4. CYFRIFON TERFYNOL 2021/22**

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2021/22. Mae'r materion â godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' cyflwynwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## **5. ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau, sef –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2021/22 (yn dilyn archwiliad)

## **6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH**

**Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), arwyddo'n electronig y Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.**

## **7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.

**Cyd-Bwyllgor GwE**  
**(Cynghorau Conwy, Dinbych, Flint, Gwynedd,**  
**Môn a Wrecsam)**

**DATGANIAD O'R**  
**CYFRIFON**  
**2021/22**

Adran Cyllid  
Cyngor Gwynedd  
[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# MYNEGAI

	<b>Tudalen</b>
Adroddiad Naratif	2 – 6
Datganiad Cyfrifoldebau	7
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	8
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	9
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	10
Y Fantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	13 – 40
Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynyddol	41 – 50
Geirfa	51 – 52
Adroddiad yr Archwilydd	53 – 55

# ADRODDIAD NARATIF

## RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2021/22 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 36. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2021/22*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2021/22 :

Conwy	15.28%
Dinbych	15.36%
Fflint	22.72%
Gwynedd	17.63%
Ynys Môn	10.16%
Wrecsam	18.86%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100%</b>

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2022.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2021/22 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

## **Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE**

Gweledigaeth GwE yw:

- Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.
- Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein ysgolion i ddod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau'r hinsawdd a'r addysg y mae pob dysgwr yn ei haeddu er mwyn bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial.

Mae Cynllun Busnes y GwE, yn adnabod amcanion sefydlwyd i gyfarfod eu blaenoriaethau, ac mae ar gael yn: <https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/>

Ar ddiwedd Mawrth 2020 gwelwyd argyfwng Covid-19 sydd yn parhau i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar ein bywydau. Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid gan roi sylw i'r agweddau a ganlyn:

- Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Cefnogi ysgolion i ail agor – cydweithio â'r Awdurdodau Lleol i sicrhau dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisiâu priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.
- Cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell.
- Darparu ystod o ddysgu proffesiynol ystyrlon gan ganolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol.
- Parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Gymraeg.
- Darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.
- Defnyddio dull cyflymu dysgu yn rhanbarthol.
- Gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd.
- Cymorth cyfunol i ysgolion ac ALI – sefydlu Canolfan Cefnogaeth GwE
- Darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw sefyllfaoedd clo yn y dyfodol.
- Cydweithio gyda'r Athro Graham Donaldson i ddatblygu ystod o ddarnau meddwl i gefnogi ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd, gan blethu'r Cwricwlwm i Gymru yn naturiol â'r arferion presennol.

## **Strategaeth Ariannol**

Mae Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor a Chyllideb 2021/22 a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2021 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru cyflawni'r blaenoriaethau gwella, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anrffod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn:

<https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/llywodraethu/cyd-bwyllgor/>

Bydd newidiadau yn sgil pandemig Covid-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor fel cynghorau Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir.

## **Perfformiad 2021/22**

Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynnyddol ar gael yn (Cyd-Bwyllgor 13 Gorffennaf 2022): <https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/llywodraethu/cyd-bwyllgor/>



### Perfformiad Ariannol 2021/22

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant referniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £21,798k yn ystod 2021/22, gyda'r sefyllfa net yn £1,226k.
- Adroddir sefyllfa alldro ariannol 2021/22 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2022. Gofynnir am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo £230k o reserf penodol i ariannu gorwariant eleni.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

### TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant ar Weithgareddau Incwm	20,731	20,962	231
Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer gwasanaeth craidd:			
Conwy	(645)	(645)	0
Dinbych	(649)	(649)	0
Fflint	(960)	(960)	0
Gwynedd	(745)	(745)	0
Ynys Môn	(429)	(429)	0
Wrecsam	(796)	(796)	0
Incwm Arall	(16,507)	(16,508)	(1)
<b>(Tanwariant)/Gorwariant Net</b>	<b>0</b>	<b>230</b>	<b>230</b>

### TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro) £'000	Addasiad Trawsddodiad £'000	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy £'000	*Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000	Datganiad Incwm a Gwariant £'000
Gwariant	20,962	(103)	20,859	939	21,798
Incwm	(20,732)	160	(20,572)	0	(20,572)
<b>Cost Gwasanaethau Net</b>	<b>230</b>	<b>57</b>	<b>287</b>	<b>939</b>	<b>1,226</b>

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

## **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- (£4,508k) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £20,572k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).

## **Materion Eraill**

- Mae risgiau ariannol gyda sefyllfa'r economi byd-eang ac mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ansicrwydd economaidd yn parhau yn sgil terfynu aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.
- Mae'r argyfwng Covid-19 cyfredol yn parhau yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a chanolog.

## **Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor reserfau defnyddiadwy o £1,156k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9.

## **Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi lleihau (£3,317k) i £9,056k yn 2021/22. Gweler Nodyn 24 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf ar gyfer cyfrifon 2022/23 yn seiliedig ar 31 Mawrth 2022.

## **Llywodraethu**

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## **Polisiau Cyfrifo**

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiâu Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 13.

## **Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrch'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

## **Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru).

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans  
Uwch Reolwr Cyllid  
01286 679133

neu

Gwion Elis Jones  
Uwch Gyfrifydd  
01286 679060

Adran Cyllid  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# **CYD-BWYLLGOR GwE**

## **DATGANIAD O'R CYFRIFON**

### **DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON**

#### **CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR**

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

**23 Tachwedd 2022**

---

**Y Cyngorydd Julie Fallon**  
**Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE**

---

#### **CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD**

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel y osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

---

#### **TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2022 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



---

**Dewi Aeron Morgan CPFA**  
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

**15 Tachwedd 2022**

Tud. 20

## DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Ailddatgan 2020/21				2021/22		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
4,808	336	5,144	Gweithwyr	5,177	939	6,116
153	0	153	Eiddo	168	0	168
15	0	15	Cludiant	46	0	46
826	0	826	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,795	0	1,795
7,445	0	7,445	Trydydd Parti	13,673	0	13,673
0	0	0	Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0
(13,486)	0	(13,486)	Incwm	(20,572)	0	(20,572)
<b>(239)</b>	<b>336</b>	<b>97</b>	<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>287</b>	<b>939</b>	<b>1,226</b>
0	199	199	Gwariant ac Incwm Arall	0	256	256
<b>(239)</b>	<b>535</b>	<b>296</b>	<b>(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau</b>	<b>287</b>	<b>1,195</b>	<b>1,482</b>
(1,204)			Balans Agoriadol y Reserfau Defnyddiadwy	(1,443)		
(239)			(Gweddill)/Diffyg ar y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn	287		
<b>(1,443)</b>			Balans Cau y Reserfau Defnyddiadwy	<b>(1,156)</b>		

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

Ailddatgan 2020/21			2021/22			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
5,144	0	5,144	Gweithwyr	6,116	0	6,116
153	0	153	Eiddo	168	0	168
15	0	15	Cludiant	46	0	46
826	0	826	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,795	0	1,795
7,445	0	7,445	Trydydd Parti	13,673	0	13,673
0	0	0	Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0
0	(13,486)	(13,486)	Incwm	0	(20,572)	(20,572)
<b>13,583</b>	<b>(13,486)</b>	<b>97</b>	<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>21,798</b>	<b>(20,572)</b>	<b>1,226</b>
199	0	199	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	256	0	256
<b>13,782</b>	<b>(13,486)</b>	<b>296</b>	<b>(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau</b>	<b>22,054</b>	<b>(20,572)</b>	<b>1,482</b>
		3,541	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)			(4,508)
		<b>3,541</b>	<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>			<b>(4,508)</b>
		<b>3,837</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>			<b>(3,026)</b>

## DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cyngorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau		
Nodyn	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor	
	£'000	£'000	£'000	
<b>Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen</b>	<b>(711)</b>	<b>8,396</b>	<b>7,685</b>	
Addasu Balans Agoriadol	(493)	1	(492)	
<b>Ailddatgan balans agoriadol</b>	<b>(1,204)</b>	<b>8,397</b>	<b>7,193</b>	
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2020/21</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	296	0	296	
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	3,541	3,541	
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>296</b>	<b>3,541</b>	<b>3,837</b>	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8 (535)	535	0	
<b>(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy</b>	<b>(239)</b>	<b>4,076</b>	<b>3,837</b>	
<b>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21</b>	<b>(239)</b>	<b>4,076</b>	<b>3,837</b>	
<b>Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen</b>	<b>(1,443)</b>	<b>12,473</b>	<b>11,030</b>	
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2021/22</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	1,482	0	1,482	
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	(4,508)	(4,508)	
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>1,482</b>	<b>(4,508)</b>	<b>(3,026)</b>	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8 (1,195)	1,195	0	
<b>(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy</b>	<b>9 287</b>	<b>(3,313)</b>	<b>(3,026)</b>	
<b>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22</b>	<b>287</b>	<b>(3,313)</b>	<b>(3,026)</b>	
<b>Balans 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen</b>	<b>(1,156)</b>	<b>9,160</b>	<b>8,004</b>	

## Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisió), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Ailddatgan 1 Ebrill 2020 £'000	Ailddatgan 31 Mawrth 2021 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2022 £'000
476	509	Dyledwyr Tymor Byr	11	1,177
2,556	5,959	Arian a Chyferwerthoedd Arian	12	1,587
<b>3,032</b>	<b>6,468</b>	<b>Asedau Cyfredol</b>		<b>2,764</b>
(1,909)	(4,114)	Credydwyr Tymor Byr	13	(1,712)
(3)	(3)	Darpariaethau Tymor Byr	14	0
(9)	(1,008)	Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	20	0
<b>(1,921)</b>	<b>(5,125)</b>	<b>Ymrwymiadau Cyfredol</b>		<b>(1,712)</b>
(8,304)	(12,373)	Ymrwymiad Pensiwn	24	(9,056)
<b>(8,304)</b>	<b>(12,373)</b>	<b>Ymrwymiadau Tymor Hir</b>		<b>(9,056)</b>
<b>(7,193)</b>	<b>(11,030)</b>	<b>Asedau Net</b>		<b>(8,004)</b>
(1,204)	(1,443)	Reserfau Defnyddiadwy	9	(1,156)
8,397	12,473	Reserfau na ellir eu defnyddio	15	9,160
<b>7,193</b>	<b>11,030</b>	<b>Cyfanswm Reserfau</b>		<b>8,004</b>



## DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyferthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyferthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

Ailddatgan 2020/21 £'000	Nodyn	2021/22 £'000
296	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau	1,482
(3,699)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol ( <i>credydwyr, dyledwyr a pensiwn</i> )	16 2,890
(3,403)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	4,372
0	Gweithgareddau Buddsoddi	0
0	Gweithgareddau Ariannu	0
(3,403)	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyferthoedd arian	4,372
(2,556)	Arian a chyferthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	(5,959)
<b>(5,959)</b>	<b>Arian a chyferthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>	<b>(1,587)</b>

# **NODIADAU I'R CYFRIFON**

## **NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO**

### **I.1 Egwyddorion Cyffredinol**

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2021/22 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2022. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiau perthnasol yn unig.

### **I.2 Croniadau Incwm a Gwariant**

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnwyd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwllch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

### **I.3 Arian a Chyferwerthoedd Arian**

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

### **I.4 Buddiannau Gweithwyr**

#### **I.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth**

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau croniedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

## **NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)**

### **I.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth**

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i pensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa pensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Pensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### **I.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth**

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Pensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

### **I.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymïadau Cronfa Pensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymïadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.7% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Pensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymïad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

## NODYN I – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

## **NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)**

### **1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd**

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### **1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### **1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill**

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail Groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

### **1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol**

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### **1.9 Darpariaethau**

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

### **1.10 Reserfau**

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

## **NODYN 1 – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)**

### **1.11 Treth ar Werth**

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

### **1.12 Dyledwyr a Chredydwyr**

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Còd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

### **1.13 Contractau Tymor Hir**

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

### **1.14 Gweithrediadau ar y Cyd**

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partion sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

## **NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO**

Mae'r polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Còd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22.

### **NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO**

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côt 2022/23:

Mae adolygiad o'r safonau cyfrifeg wedi ei wneud eleni, ond nid yw un o'r safonau dan sylw yn berthnasol i GwE.

### **NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISI'AU CYFRIFO**

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thaf luniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn dilyn i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau. Tra bod effeithiau'r argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er hynny, mae'r Cyd-Bwyllgor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyd-Bwyllgor.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn a reserfau a glustnodwyd. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2022 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau
Ymrwymiad Pensiwn	<p>Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiwn.</p> <p>Cafodd Brexit a COVID-19 effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, ond mae'n ymddangos bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai achos difrifol arall o COVID-19 gael effaith niweidiol ar adneillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno codiadau chwyddiant o ganlyniad i'r adferiad.</p>	Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi'u nodi yn Nodyn 24.

## NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- (£4,508k) yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Pensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £20,572k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).



## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2021/22				
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU				
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)	Gwahaniaethau Eraill (ii)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweithwyr	0	935	4	939
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>0</b>	<b>935</b>	<b>4</b>	<b>939</b>
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	256	0	256
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
<b>(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau</b>	<b>0</b>	<b>1,191</b>	<b>4</b>	<b>1,195</b>

2020/21				
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU				
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)	Gwahaniaethau Eraill (ii)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gweithwyr	0	329	7	336
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>0</b>	<b>329</b>	<b>7</b>	<b>336</b>
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	199	0	199
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
<b>(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau</b>	<b>0</b>	<b>528</b>	<b>7</b>	<b>535</b>

## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

### (i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi**, y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### (ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am Groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi**, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremymau a disgownt.

## NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2021/22		
<b>ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU</b>	<b>Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol</b>	<b>Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:</b>		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(2,006)	2,006
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	815	(815)
<b>Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig</b>		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(4)	4
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>(1,195)</b>	<b>1,195</b>

2020/21		
<b>ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU</b>	<b>Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol</b>	<b>Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:</b>		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(1,336)	1,336
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	808	(808)
<b>Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig</b>		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(7)	7
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>(535)</b>	<b>535</b>

## NODYN 9 – TROSLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

### 9a. Y Gronfa Gyffredinol

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda lleihad net o (£374k).

	<b>Cronfa Gyffredinol Cyd-Bwyllgor GwE</b>
	<b>£'000</b>
<b>Balans 31 Mawrth 2021</b>	<b>811</b>
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Mewn	16
Allan	(390)
<b>Balans 31 Mawrth 2022</b>	<b>437</b>

### 9b. Reserfau a Glustnodwyd

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Reserfau a Glustnodwyd mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r i gefnogi cefnogi Athrawon Newydd Gymhwyso i'r dyfodol, gyda chynnydd o £87k.

	<b>Ailddatgan Reserfau a Glustnodwyd Cyd-Bwyllgor GwE</b>
	<b>£'000</b>
<b>Balans 31 Mawrth 2021</b>	<b>632</b>
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Mewn	87
Allan	0
<b>Balans 31 Mawrth 2022</b>	<b>719</b>

## NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2020/21	2021/22
£'000	£'000
199	256
Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	
<b>199 Cyfanswm</b>	<b>256</b>

## NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022
	£'000	£'000
Symiau dyledus masnach	46	37
Blaendaliadau	75	57
Symiau dyledus eraill	388	1,083
<b>Cyfanswm</b>	<b>Tud. 36 509</b>	<b>1,177</b>

## NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Arian mewn Banc a ddelir gan yr Awdurdod Lletya	5,959	1,587
<b>Arian a Chyferthoedd Arian</b>	<b>5,959</b>	<b>1,587</b>

## NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Symiau taladwy masnach	568	410
Symiau taladwy eraill	3,546	1,302
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,114</b>	<b>1,712</b>

## NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadu penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

	Balans ar 31 Mawrth 2021 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2022 £'000
<b><u>Darpariaethau Tymor Byr</u></b>				
Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd	(3)	3	0	0
	(3)	3	0	0

**Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd** – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

## NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

Ailddatgan 31 Mawrth 2021 £'000		31 Mawrth 2022 £'000
(12,373)	Reserf Pensiynau	(9,056)
(100)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(104)
<b>(12,473)</b>	<b>Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio</b>	<b>(9,160)</b>

### Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynnyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2020/21 £000		2021/22 £000
<b>(8,304)</b>	<b>Balans 1 Ebrill</b>	<b>(12,373)</b>
(3,541)	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau) (Nodyn 24)	4,508
(1,336)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(2,006)
808	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	815
<b>(12,373)</b>	<b>Balans 31 Mawrth</b>	<b>(9,056)</b>

## NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

### Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

<b>Ailddatgan 2020/21 £000</b>		<b>2021/22 £000</b>
<b>(93)</b>	<b>Balans 1 Ebrill</b>	<b>(100)</b>
<b>(7)</b>	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	<b>(4)</b>
<b>(100)</b>	<b>Balans 31 Mawrth</b>	<b>(104)</b>

## NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

<b>Ailddatgan 2020/21 £'000</b>		<b>2021/22 £'000</b>
<b>(3,204)</b>	<b>(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr</b>	<b>3,413</b>
<b>33</b>	<b>Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr</b>	<b>668</b>
<b>(528)</b>	<b>Ymrwymiad Pensiwn</b>	<b>(1,191)</b>
<b>(3,699)</b>		<b>2,890</b>

## NODYN 17 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 30 Mai 2022. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2022, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith.

## NODYN 18 – TALIADAU I SWYDDOGION

**18a.** Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd), yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

2020/21			Uwch Swyddogion	2021/22		
Cyfraniadau Pensiwn				Cyfraniadau Pensiwn		
Cyflog £	Cyflogwr £	Cyfanswm £		Cyflog £	Cyflogwr £	Cyfanswm £
103,545	23,815	127,360	Prif Swyddog	105,029	24,157	129,186

**18b.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd yna unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2021/22 na 2020/21.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:		
Nifer yn 2020/21		Nifer yn 2021/22
Cyfanswm		Cyfanswm
5	£60,000 - £64,999	15
6	£65,000 - £69,999	9
4	£70,000 - £74,999	3
0	£75,000 - £79,999	1

## NODYN 19 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2020/21		2021/22
£'000		£'000
11	Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	11
<b>11</b>	<b>Ffioedd Net</b>	<b>11</b>



## NODYN 20 – INCWM GRANT

20a. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	Ailddatgan 2020/21		2021/22	
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau</b>				
Llywodraeth Cymru -				
Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - Plant Mewn Gofal	1,029		1,135	
GDD - Cynghorydd Strategol	97		103	
GDD - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	142		196	
Arall	115		374	
		<b>1,383</b>		<b>1,808</b>
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol - Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA)		<b>4,561</b>		<b>10,801</b>
Grant Gwella Addysg (GGA)				
Llywodraeth Cymru	1,283		1,386	
Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau	1,587		1,625	
		<b>2,870</b>		<b>3,011</b>
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall Cyngor Gweithlu Addysg	414		537	
		<b>414</b>		<b>537</b>
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd				
Conwy	637		645	
Dinbych	637		649	
Fflint	944		960	
Gwynedd	734		745	
Ynys Môn	422		429	
Wrecsam	789		796	
		<b>4,163</b>		<b>4,224</b>
Grantiau a Chyfraniadau eraill		<b>94</b>		<b>191</b>
<b>Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau</b>		<b>13,485</b>		<b>20,572</b>

## NODYN 20 – INCWM GRANT (parhad)

20b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	Ailddatgan	
	31 Mawrth	31 Mawrth
	2021	2022
	£'000	£'000
<b>Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw</b>		
<b><u>Tymor Byr</u></b>		
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	997	0
Arall	11	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,008</b>	<b>0</b>

## NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y diffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

### Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cyngorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

	Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Incwm a dderbyniwyd	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Awdurdod Lleol</b>				
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	2,150	99	955	6
Cyngor Sir Ddinbych	1,738	59	1,062	70
Cyngor Sir y Fflint	2,690	180	1,037	20
Cyngor Gwynedd	2,624	336	1,057	32
Cyngor Sir Ynys Môn	1,329	226	920	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	2,295	97	316	464

## NODYN 21 – PARTIÖN CYSYLLTIEDIG (parhad)

### Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y'u diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2021/22 a'r balansau ar 31 Mawrth 2022 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£'000	£'000	£'000
154	209	27

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cynghorwyr.

### Swyddogion

Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, diddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2021/22, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrrff a nodwyd.

## NODYN 22 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna unrhyw becyn terfynu gwaith yn ystod 2021/22. Roedd yna ddau becyn terfynu gwaith yn ystod 2020/21, roedd y staff ar gcontractau dros dro, ond gyda gwasanaeth yn cario drosodd o'i cyflogaeth blaenorol.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band	
	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21	2021/22	2020/21 £'000	2021/22 £'000
£								
0 - 20,000	1	0	0	0	1	0	8	0
20,001 - 40,000	1	0	0	0	1	0	34	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>2</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2</b>	<b>0</b>	<b>42</b>	<b>0</b>

## NODYN 23 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Nid oes unrhyw athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwysu'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwn wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiwnau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Pensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiwnau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2021			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2022		
	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	17,622	0	17,622	23,243	0	23,243
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(25,926)	(25,926)	0	(35,616)	(35,616)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu Hariannu	0	0	0	0	0	0
<b>Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill</b>	<b>17,622</b>	<b>(25,926)</b>	<b>(8,304)</b>	<b>23,243</b>	<b>(35,616)</b>	<b>(12,373)</b>
Addasiad pensiwn cyfnod blaenorol**	(180)		(180)			
<b>Sefyllfa Agoriadol Addasiedig ar 1 Ebrill</b>	<b>17,442</b>	<b>(25,926)</b>	<b>(8,484)</b>	<b>23,243</b>	<b>(35,616)</b>	<b>(12,373)</b>
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(1,137)	(1,137)	0	(1,750)	(1,750)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm Cost Gwasanaeth</b>	<b>0</b>	<b>(1,137)</b>	<b>(1,137)</b>	<b>0</b>	<b>(1,750)</b>	<b>(1,750)</b>
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	408	0	408	471	0	471
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(607)	(607)	0	(727)	(727)
<b>Cyfanswm Llog Net</b>	<b>408</b>	<b>(607)</b>	<b>(199)</b>	<b>471</b>	<b>(727)</b>	<b>(256)</b>
<b>Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)</b>	<b>408</b>	<b>(1,744)</b>	<b>(1,336)</b>	<b>471</b>	<b>(2,477)</b>	<b>(2,006)</b>
Llif Arian						
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	279	(279)	0	293	(293)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	797	0	797	807	0	807
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	(453)	453	0	(473)	473	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	0	0	0
<b>Sefyllfa Cau y Disgwyllir</b>	<b>18,473</b>	<b>(27,496)</b>	<b>(9,023)</b>	<b>24,341</b>	<b>(37,913)</b>	<b>(13,572)</b>
Ail Fesuriadau						
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	(434)	(434)	0	182	182
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	(7,950)	(7,950)	0	2,727	2,727
Profiadau Eraill	0	264	264	0	(65)	(65)
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	4,770	0	4,770	1,672	0	1,672
<b>Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)</b>	<b>4,770</b>	<b>(8,120)</b>	<b>(3,350)</b>	<b>1,672</b>	<b>2,844</b>	<b>4,516</b>
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	23,243	0	23,243	26,013	0	26,013
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(35,616)	(35,616)	0	(35,069)	(35,069)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu	0	0	0	0	0	0
<b>Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth</b>	<b>23,243</b>	<b>(35,616)</b>	<b>(12,373)</b>	<b>26,013</b>	<b>(35,069)</b>	<b>(9,056)</b>

\* Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

\*\*Addasiad i ffigyrau 2019/20, yn dilyn derbyniad adroddiad diwygiedig gan Hymans am 2019/20.

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2.734bn ar 31 Mawrth 2022, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond elfen o hwn sydd yn berthnasol i GwE.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2021				Ar 31 Mawrth 2022			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
<b>Ernesau Ecwiti</b>								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Ernesau Dyledion</b>								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Ecwiti Preifat</b>								
Y cyfan	0	1,445	1,445	6	0	1,466	1,466	6
<b>Eiddo Diriaethol</b>								
Eiddo y DU	0	1,843	1,843	8	0	2,231	2,231	9
Eiddo Tramor	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cronfeydd</b>								
<b>Buddsoddi ac</b>								
<b>Ymddiriedolaethau</b>								
<b>Unedol</b>								
Ecwiti	0	14,892	14,892	64	0	16,532	16,532	64
Is-adeiladwaith	0	410	410	2	0	508	508	2
Eraill	0	4,519	4,519	19	0	5,195	5,195	20
<b>Arian a</b>								
<b>Chyferthoedd</b>								
<b>Arian</b>								
Y cyfan	134	0	134	1	81	0	81	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>134</b>	<b>23,109</b>	<b>23,243</b>	<b>100</b>	<b>81</b>	<b>25,932</b>	<b>26,013</b>	<b>100</b>

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.5% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022
<b>Tybiaethau Ariannol</b>	<b>% y.f.</b>	<b>% y.f.</b>
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.85	3.20
Cyfradd Codiad Cyflogau	3.15	3.50
Cyfradd Chwyddiant	2.85	3.20
Cyfradd Ddisgownt	2.00	2.70
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau	2.00	2.70
<b>Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol</b>		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
<b>Tybiaethau Marwolaeth</b>	<b>Blynyddoedd</b>	<b>Blynyddoedd</b>
Hyd oes ar 65 oed am bensynwyr cyfredol		
Dynion	21.5	21.3
Merched	23.9	23.7
Hyd oes ar 65 oed am bensynwyr y dyfodol		
Dynion	22.7	22.4
Merched	25.9	25.7

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintoli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2022 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintoli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraid diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2022	
	Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2022	Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2022
	%	£'000
0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	2	745
Cynnydd o 1 flwyddyn yn nisgwylad oes aelodau	4	1,403
0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad cyflog	0	98
0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	2	641

Y brif ragdybiaeth ddemograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwylad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwylad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwylad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn).

### Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2022 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraid 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

### Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2022	
	£'000	%
Aelodau Gweithredol	22,052	62.9
Aelodau Gohiriedig	3,763	10.7
Aelodau Pensiynwyr	9,254	26.4
<b>Cyfanswm</b>	<b>35,069</b>	<b>100.0</b>

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig. Nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.



## **NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)**

### **Effaith ar y Blynyddoedd i ddod**

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £808k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2023.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £8k yn 2021/22, (£191k yn 2020/21), i ddod â'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a ddiffinnir yn y Fantolen.

## **NODYN 25 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL**

Fel rhan o gyfrifon 21/22 GwE mae ffigyrau o gyfrifon 20/21 wedi cael eu haddasu yn dilyn newid mewn triniaeth un o ffynonellau incwm GwE. Yn dilyn adolygiad o'r ffigyrau dan sylw, fe gadarnhawyd fod y gwerth yn faterol i gyfrifon GwE, ac o ganlyniad fod rhaid gwneud addasiad cyfnod blaenorol

Mae addasiad wedi bod i'r cyfrifon yn golygu fod yr incwm mae GwE yn ei dderbyn gan Cyngor Gweithlu Addysg, bellach yn cael ei adnabod yn llawn yn y flwyddyn ariannol y caiff ei dderbyn. Gydag unrhyw incwm sydd yn weddill yn cael i drosglwyddo i reserfau defnyddiadwy i'r dyfodol, yn hytrach nai ddosbarthu fel incwm wedi'i dderbyn ymlaen llaw. Amlygir isod yr holl addasiadau sydd wedi ei wneud i ffigyrau 20/21 yn dilyn y driniaeth newydd. Mae'r ffigyrau yma yn berthnasol.

- a. Mae'r £139k yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng yr incwm a dderbyniwyd yn y flwyddyn 20/21 gan y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) a'r hyn adroddwyd arni yn wreiddiol. Gwerth hyn yw sail yr ailddatganiad.
- b. Mae'r £493k yn cynrychioli'r incwm a dderbyniwyd gan CGA hyd at 31 Mawrth 2020 oedd yn cael ei ddelio fel incwm wedi ei dderbyn ymlaen llaw, mae'r ffurf newydd o ddelio gyda'r incwm yn llawn yn y flwyddyn, gydag unrhyw incwm yn weddill yn cyfranu i'r reserfau defnyddiadwy yn golygu bod angen addasiad i gywiro man cychwyn y reserfau defnyddiadwy fel yr oedd ar 1 Ebrill 2020.
- c. Mae'r £632k yn gyfuniad o'r ddau uchod, a gwerth hwn yw'r incwm a dderbyniwyd gan CGA hyd at 31 Mawrth 2021 nad oedd eisoes wedi ei adnabod fel incwm yn y flwyddyn, ond fel credydwr ac incwm ymlaen llaw.

## NODYN 25 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL (parhad)

### DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy			Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		
	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Incwm	(13,347)	(139)	(13,486)	(13,347)	(139)	(13,486)
Cost Gwasanaethau	(100)	(139)	(239)	236	(139)	97
Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(100)	(139)	(239)	435	(139)	296
Balans Agoriadol y Reserfau Defnyddiadwy	(711)	(493)	(1,204)			
(Gweddill)/Diffyg ar y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn	(100)	(139)	(239)			
Balans Cau y Reserfau Defnyddiadwy	(811)	(632)	(1,443)			

### DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

	Incwm Gros			Gwariant Net		
	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Incwm	(13,347)	(139)	(13,486)	(13,347)	(139)	(13,486)
Cost Gwasanaethau	(13,347)	(139)	(13,486)	236	(139)	97
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(13,347)	(139)	(13,486)	435	(139)	296
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				3,976	(139)	3,837

**NODYN 25 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL (parhad)**

**DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU**

	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy			Reserfau na ellir eu defnyddio			Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor		
	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	435	(139)	296				435	(139)	296
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	435	(139)	296				3,976	(139)	3,837
(Cynnydd)/Gostyngiad Net Cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy	(100)	(139)	(239)				3,976	(139)	3,837
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21	(100)	(139)	(239)				3,976	(139)	3,837
Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen	(811)	(632)	(1,443)	12,472	1	12,473	11,661	(631)	11,030

## NODYN 25 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL (parhad)

### Y FANTOLEN

	Fel datganwyd yn flaenorol 1 Ebrill 2020	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 1 Ebrill 2020
Arian a Chyferthoedd Arian	2,557	(1)	2,556
Asedau Cyfredol	3,033	(1)	3,032
Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	(502)	493	(9)
Ymrwymadau Cyfredol	(2,414)	493	(1,921)
Asedau Net	(7,685)	492	(7,193)
Reserfau Defnyddiadwy	(711)	(493)	(1,204)
Reserfau na ellir eu defnyddio	8,396	1	8,397
Cyfanswm Reserfau	7,685	(492)	7,193

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	(1,639)	631	(1,008)
Ymrwymadau Cyfredol	(5,756)	631	(5,125)
Asedau Net	(11,661)	631	(11,030)
Reserfau Defnyddiadwy	(811)	(632)	(1,443)
Reserfau na ellir eu defnyddio	12,472	1	12,473
Cyfanswm Reserfau	11,661	(631)	11,030

### DATGANIAD LLIF ARIAN

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau	435	(139)	296
Addasiadau i'r gwaged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (credydwy, dyledwyr a pensiwn)	(3,837)	138	(3,699)
Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	(3,402)	(1)	(3,403)
(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyferthoedd arian	(3,402)	(1)	(3,403)
Arian a chyferthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	(2,557)	1	(2,556)

## NODYN 9 – TROSLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

### 9b. Reserfau a Glustnodwyd

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Balans 31 Mawrth 2021	Tud. 52 <sup>0</sup>	632	632

## NODYN 25 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL (parhad)

### NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(99)	(1)	(100)

### NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

#### Cyfrif Absenoldeb Cronedig

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Balans 1 Ebrill	(92)	(1)	(93)
Balans 31 Mawrth	(99)	(1)	(100)

### NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd	(3,342)	138	(3,204)
Cyfanswm	(3,837)	138	(3,699)

### NODYN 20 – INCWM GRANT

#### 20a.

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall (Cyngor Gweithlu Addysg)	276	138	414
Cyfanswm	13,347	138	13,485

### NODYN 20 – INCWM GRANT (parhad)

#### 20b.

	Fel datganwyd yn flaenorol 31 Mawrth 2021	Ailddatganiad	Wedi ailddatgan 31 Mawrth 2021
Cyngor Gweithlu Addysg	631	(631)	0
Cyfanswm	1,639	(631)	1,008

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2022, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2021/22.

### Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu yn barhaus mewn ffordd ddisgybledig, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac atodol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Ar gyfer pob egwyddor lywodraethu, arfarnwyd yn seiliedig ar gyfuniad o:

- Adolygiad o adroddiadau a dogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes;
- Trafod â swyddogion, yr UDA a'r Bwrdd Rheoli a sylwadau a gafwyd ganddynt hwythau;
- Myfyrion barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith, yn fewnol ac yn allanol h.y. Estyn, Steve Munby, Education Development Trust, Yr Athro Graham Donaldson, OECD, Llywodraeth yr Alban, a'r Consortia Rhanbarthol eraill.

3.5 Ers mis Mawrth 2020, hyd at ddyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2021/22, bu GwE yn ymateb i argyfwng pandemig Covid-19. Ble cafodd hyn effaith sylweddol ac amlwg ar drefniadau llywodraethu GwE, nodwyd hyn isod.

Egwyddor A	Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol
Asesu	Sicrhawyd

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
  - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
  - Ymrwymiad a Chymhelliant
  - Sgiliau a Chreadigedd
  - Perthnasau Effeithiol
  - Datblygu ac Addasu
  - Enw Da
  - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
  - Caniatâd Angenrheidiol
  - Ymrwymionau Aelodau a Swyddogion

- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.
- Adolygwyd gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Yn rhan o'r Cynllun Busnes Rhanbarthol, mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
  - Parch
  - Ymddiriedaeth
  - Lles
  - Arloesi ac ysbrydoli
  - Cefnogi a chydweithio
  - Cymru a'r Gymraeg
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2021-22 yn rhithiol ar Zoom. Rhoddwyd canllawiau at ei gilydd i'r Aelodau mewn perthynas â Mynychu Cyfarfodydd Rhithiol.

Egwyddor B	Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid
Asesu	Sicrhawyd

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Sefydliad partneriaeth yw GwE, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y pandemig ac wrth symud ymlaen.
- Ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy amrywiol fforymau o fewn y drefn lywodraethu ffurfiol, a thu allan iddi.
- Yn ystod 2021/22, bu GwE yn gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisiau a pharhad dysgu. Mae GwE hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau. Cryfhawyd hefyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.
- Mae GwE yn annog i'w rhanddeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws Gogledd Cymru yw'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gweledyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er



sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

- Cynhyrchodd GwE gyfres o adroddiadau a rannwyd â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn yr adroddiadau hyn, ceir safbwyntiau ysgolion, staff a'r awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion y rhanbarth. Mae pob adroddiad yn disgrifio ansawdd y ddarpariaeth ac yn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant i yrru'r agenda ddysgu ymlaen.
  - Cyd-ymdrech a gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
  - Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
  - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
  - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
  - Cyfarfodydd â'r Bwrdd Rheoli a'r Deilyddion Portffolio Addysg - penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol.
  - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
  - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALI/Aelodau Etholedig.
  - Diweddarau rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
  - Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
  - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
  - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
  - Paratoi a chydlyn cyfarfodydd rhanbarthol, er enghraifft y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor.
  - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.
- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arferion llwyddiannus. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.
- Cyn dyfodiad y pandemig COVID, cytunwyd ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. At hyn, fe ddosbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a gafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i bob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio

Egwyddor C	Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Nodir gweledigaeth gyffredinol GwE yn y cynllun busnes tair blynedd ac fe'i cryfheir ymhellach yn y cynllun busnes blyneddol.
- Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaeithiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorwyr.

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Egwyddor Ch	Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.
- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.
- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.
- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:
  - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;
  - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gydag unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.

- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
  - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;
  - cysylltu â chyrrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;
  - cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
  - goruchwyllo gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;
  - cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;
  - cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;
  - monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
  - cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gyngorau unigol;
  - cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
  - penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;
  - penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;
  - ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.
- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:
  - Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALL unigol;
  - Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
  - Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
  - Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
  - Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.
- Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith ac wedi ail bwrpasu amryw o weithiau yn ystod pandemig COVID i ddarparu gwasanaethau a chymorth i'w holl gymunedau ysgolion. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.

Egwyddor Ch	Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion.
Asesu	Sicrhawyd

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae GwE wedi ailgyfeirio amryw o weithiau yn ystod pandemig Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid.
- Yn ystod pandemig Covid-19, bu'r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir.
- Gwnaethpwyd penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol gyda eglurder a hyder. O ganlyniad, cafwyd negeseuon cyson gan yr awdurdodau lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sydd yn gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.
- Mae'r Deilyddion Portffolio Addysg wedi cael sawl cyfarwyddyd a diweddariad ar yr holl ddatblygiadau drwy gyfrwng adroddiadau a diweddariadau llafar.
- Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.
- Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar foddelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod.
- Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrsasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.
- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol Blyneddol yn ystod y flwyddyn.
- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, bwrsasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.
- Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson ers dechrau Gwanwyn 2021 i ddatblygu ei staff er mwyn iddynt allu cefnogi ysgolion yn effeithiol efo'r cwricwlwm newydd.

Egwyddor Dd	Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnl cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
Asesu	Sicrhawyd


*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.
- Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Egwyddor E	Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol
Asesu	Sicrhawyd

*Sut ydym yn gwneud hyn:*

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae gan GwE atebolrwydd blynyddol i amrywiol randdeiliaid ar draws y flwyddyn, fel y gwelir yn y diagram hwn.



- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.
- Mae'r broses ganlynol i adnabod yr angen am archwilio mewnol a gweithredu ar yr argymhellion mewn lle:
  - Nodi'r angen am archwiliad mewn meysydd penodol. Lle bo'n bosibl, bydd y cynllun gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy ystyried cofrestris risg, adroddiadau perfformiad, cynlluniau busnes ac ati.
  - Cyfarfod rhwng Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.
  - Cytuno ar y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn efo'r Bwrdd Rheoli.
  - Rhannu cynnwys y rhaglen â'r Cydbwyllgor

- Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i gynnal yr archwiliadau.
  - Rhannu adroddiadau archwilio drafft â rheolwyr perthnasol GwE er cywirdeb a chytuno ar gamau gweithredu i roi sylw i unrhyw risg.
  - Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i anfon adroddiadau archwilio at Reolwr Gyfarwyddwr a rheolwyr perthnasol GwE.
  - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar y camau gweithredu (materion gweinyddol ble nad oes angen cynnwys y Cyd-Bwyllgor).
  - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i rannu adroddiadau archwilio unigol â'r Bwrdd Rheoli.
  - Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyd-bwyllgor ar unrhyw archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.
  - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar benderfyniadau'r Cyd-Bwyllgor.
  - Swyddogion GwE i adrodd am gynnydd i'r Cyd-bwyllgor fel bo angen.
- Mae GwE wedi llwyddo i reoli a gwerthuso ei hun yn rheolaidd. O ganlyniad, bu barn cyrff atebolrwydd allanol yn gadarnhaol.

#### **Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.

4.2 Mae pob maes llywodraethu wedi'u hadolygu yng nghyd-destun pandemig Covid-19 ac rydym yn fodlon bod GwE wedi gallu addasu ei drefniadau gweithio er mwyn delio gyda'r argyfwng hwn.


#### **Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU**

5.1 Ni adnabuwyd Materion Llywodraethu yn 2021/22.

#### **Rhan 6: BARN**

Rydym o'r farn y bydd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda ar y cyfan. Er hynny, rydym yn bwriadu gweithredu i ddelio gyda'r materion a nodir uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y mesurau hyn yn delio gyda'r angen i wella fel y nodir yn yr adolygiad effeithlonrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

---




---


**Swyddog Arweiniol GwE**

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_13/07/2022\_\_\_\_\_

ARWYN LLOYD THOMAS

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

---




---

**Cadeirydd Cydbwyllgor GwE**

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_13/07/2022\_\_\_\_\_

Y CYNGHORYDD JULIE FALLON

## Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid croes mewn amgylchedd statudol).

**Ased** - Eitem o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall gollu gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Balansau (neu Reserfau)** - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu menterion diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Costau Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd mewn gwerth cyfredol ar ymrwymadau cynllun pensiwn diffiniedig a ddisgwyllir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwr** - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol** - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau Llywodraeth.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu fudd ymddeoliad arall sydd ddim yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig** – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

**Darpariaeth** – Rhwymedigaeth sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i'w gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo sydd yn bwrpasol ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer arbrisiant cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraid** - Ar gyfer cynllun pensiwn diffiniedig, mae'r newidiadau mewn gwarged actiwaraid sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraid a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu mae'r rhagdybiaeth actiwaraid wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.



**Offerynnau Ariannol** - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb i'w casglu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnbrannu.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu i ymarfer dylanwad penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Reserfau** - Swm a bennir i un ochr ar gyfer pwrpas penodol mewn un flwyddyn gaiff ei gario ymlaen i gyfarfod ymrwymadau'r dyfodol.

**Rhestr Eiddo** - Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categorio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu defnyddio gan bob endidau sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o safle ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiad cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau fydd yn orfodol i'w dalu ar ryw ben yn y dyfodol.

## **Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Gyd-Bwyllgor GwE**

### **Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Ariannol Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

### **Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### **Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyd-Bwyllgor GwE i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### **Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Datganiad o'r Cyfrifon heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Datganiad o'r Cyfrifon. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adroddiad ynghylch gofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chôd Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

### Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyd-Bwyllgor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall. Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyd-bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thbyr bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau y Cyd-Bwyllgor GwE mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyd-Bwyllgor GwE yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae y Cyd-Bwyllgor GwE yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau y Cyd-Bwyllgor GwE.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Cyd-Bwyllgor GwE a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau y Cyd-Bwyllgor GwE, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

### **Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chôd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Tachwedd 2022

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

## Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-Bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3247A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Côt Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Côt adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamedd ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig	10
Atodiad 3 – Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed	15

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn yr adroddiad hwn.
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Pennaeth Cyllid a'i dîm.
- 3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.
- 4 Pennwyd lefel perthnasedd o £441,000 ar gyfer archwiliad eleni.
- 5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
  - Datgeliad Partïon Cysylltiedig £10,000
  - Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion £1,000
- 6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni [yn sylweddol.
- 7 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Rydym wedi eich hysbysu'n flaenorol ynghylch bygythiad posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilydd sy'n deillio gyda'r Rheolwr Archwilio sy'n adnabod cyn-aelod o'r cyd-bwyllgor ag ymadawodd yn dilyn etholiadau mis Mai. Gallwn gadarnhau bod y mesurau diogelu arfaethedig a nodwyd yn ein Cynllun Archwilio i liniaru'r bygythiad posibl wedi gweithredu fel y bwriadwyd.

## Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni

- 8 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaus ar y modd y cynhaliwyd ein harchwiliad. Rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion penodol, darperir y manylion yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.



## Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

<b>Amserlen</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cawsom y cyfrifon drafft ar 30 May 2022 fel a gynlluniwyd.</li><li>• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi yn Tachwedd.</li></ul>
<b>Llofnodion electronig</b>	O ystyried gweithio o bell parhaus, byddwn yn defnyddio llofnodion electronig ar gyfer cymeradwyo ac ardystio cyfrifon eleni.
<b>Tystiolaeth archwilio</b>	Cynhaliwyd archwiliad y datganiadau ariannol o bell eto eleni gan: <ul style="list-style-type: none"><li>• gynnal cyfarfodydd Microsoft Teams gyda swyddogion trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg; a</li><li>• ddefnyddio ein mynediad o bell i alluogi'r tîm archwilio I gael mynediad at gofnodion a systemau ariannol y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdod lletyol.</li></ul>

## Barn archwilio arfaethedig

- 9 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio **ddiamod** ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 10 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 11 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys ambell gadarnhad y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.
- 12 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

## Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

- 13 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u canfod yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

### Camddatganiadau a gywirwyd

- 14 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

### Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

- 15 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi eleni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2021-22

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 at ddiben mynegi barn ynghlŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau'r rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;

- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar y Cyd-Bwyllgor GwE ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhodddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhodddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn **unigol** ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd.

## Sylwadau gan y Cyd-Bwyllgor

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyd-Bwyllgor GwE ar 23 Tachwedd 2022.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dewi Aeron Morgan

Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

23 Tachwedd 2022

Llofnodwyd gan:

Y Cynghorydd Julie Fallon

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE

23 Tachwedd 2022

# Atodiad 2

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

### Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Gyd-Bwyllgor GwE

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

#### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyd-Bwyllgor GwE i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## **Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Datganiad o'r Cyfrifon heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Datganiad o'r Cyfrifon. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## **Adroddiad ynghylch gofynion eraill**

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chôd Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

## **Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyd-Bwyllgor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## **Cyfrifoldebau**

### **Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyd-bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

### **Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.



Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau y Cyd-Bwyllgor GwE mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Cyd-Bwyllgor GwE yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae y Cyd-Bwyllgor GwE yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau y Cyd-Bwyllgor GwE.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r chyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Cyd-Bwyllgor GwE a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau y Cyd-Bwyllgor GwE, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chôd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Tachwedd 2022

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

### Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
£0	<b>Nodyn 18b – Taliadau i Swyddogion</b> Mae angen diwygio nifer y staff a ddatgelir fesul band cyflog, i gynnwys yr holl staff perthnasol i gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). Mae 4 unigolyn ychwanegol wedi'u hychwanegu at nodyn datgelu 2021-22 fel a ganlyn: Band £60,000 - £64,999 o 12 i 15 Band £65,000 - £69,999 o 8 i 9	I gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).
£718,000 yn 2021-22 £631,000 yn 2020-21	<b>Nodyn 20b – Incwm Grant</b> Mae angen newid i ddileu grant Cyngor Gweithlu Addysg o 'Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llawn' gan nad oes amodau grant ynghlwm wrth y grant hwn. Mae Côt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i grantiau o'r fath gael eu cydnabod yn llawn yn y DIGC yn y flwyddyn y derbynnir y grant, gydag unrhyw grant sy'n weddill heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn, yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn i'w ddefnyddio yn y blynnyddoedd i ddod. Arweiniodd y cywiriad hefyd at addasiad cyfnod blaenorol materol. Mae'r cywiriad hefyd wedi effeithio ar yr holl ddatganiadau ariannol sylfaenol a nodiadau amrywiol. Mae nodyn datgelu ychwanegol (Nodyn 25) wedi'i ychwanegu i adlewyrchu'r holl addasiadau a wnaed.	I gydymffurfio â Chôt Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2021-22.

**£29,000**

Datgelu £154,000 nid  
£125,000

**Nodyn 21 – Partïon Cysylltiedig**

Mae angen newid i ddatgelu'r ffigwr cywir ar gyfer y 'Taliadau a Wnaethpwyd' mewn perthynas â buddiannau datganedig aelodau neu berthynas mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-bwyllgor GwE.

Mae'r cywiriad hwn yn hunangynhwysol yn Nodyn 21.

Er mwyn sicrhau bod y swm cywir o Daliadau a Wnaethpwyd yn cael ei ddatgelu.

Bu hefyd amryw o ddiwygiadau naratif eraill o ganlyniad i'n gwaith.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Eitem 6

GwE: Cydbwyllgor 23/11/22

---



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo

<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	23 Tachwedd 2022
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 2il Chwarter</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Ar sail gwariant ac incwm yr ail chwarter ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld tanwariant net o (£91,800) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.
- 1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 Gweithwyr:

**Chwarter 2: tanwariant (£46,552) Chwarter 1: tanwariant (£84,046)**

Mae'r tanwariant yn seiliedig ar drosiant staff, gan gynnwys staff sydd ar secondiad a chyfnodau mamolaeth, yn ogystal â phroblemau recriwtio yn gyffredinol. Gwelwyd leihad yn y tanwariant a ragwelir, gan fod y sefyllfa staffio yn llawer cliriach erbyn hyn yn dilyn cychwyn y flwyddyn academaidd, gyda llai o ddibyniaeth ar grantiau allanol i gyfrannu at gostau amryw o staff craidd.

### 2.2 Adeilad:

**Chwarter 2: gorwariant £25,367 Chwarter 1: gorwariant £25,367**

Mae GwE yn ddibynol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am rent o ddefnydd adeiladau GwE. Mae'r digwyddiadau hyn wedi ail-gychwyn ym mis Medi, a felly rhagwelir bydd y ffrwd incwm yma yn gwella yn ystod y flwyddyn, ond bydd diffyg incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst yn arwain at orwariant.

### 2.3 Cludiant:

**Chwarter 2: tanwariant (£59,759) Chwarter 1: tanwariant (£46,771)**

Ar ôl eu hatal yn ystod yr argyfwng Covid-19, mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn erbyn hyn. Er hynny, mae ffyrdd newydd o weithio yn gyffredinol wedi arwain at fwy o gyfarfodydd rhithiol, ac felly llai o deithio.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £437,503.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £529,303 ar ddiwedd 2022/23, wrth gynnwys y tanwariant a ragwelir uchod.

## ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 2il Chwarter.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad



## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2022/23 : Ail Chwarter Gorffennaf - Medi 2022

	Cyllideb Chwarter 1 £	Addasiadau Chwarter 2 £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagweilir £	Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 £
<b>Gwariant</b>					
Gweithwyr					
Cyflogau					
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	914,159		914,159	836,429	(77,730)
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	4,029,640		4,029,640	3,914,252	(115,388)
- Staff ar Secondiad	155,661		155,661	155,661	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,835,832)		(1,835,832)	(1,689,266)	146,566
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	44,070		44,070	44,070	0
Adeilad					
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	179,274		179,274	179,274	0
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(60,880)		(60,880)	(35,513)	25,367
Cludiant					
Costau Teithio	142,041		142,041	82,282	(59,759)
Cyflenwadau a Gwasanaethau					
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn a.y.y.b	75,520		75,520	65,520	(10,000)
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	17,070		17,070	17,070	0
Ffioedd archwilio	11,853		11,853	11,853	0
Broceru	298,745		298,745	298,745	0
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd					
Cyfreithiol	5,925		5,925	5,925	0
Adnoddau Dynol	10,160		10,160	10,160	0
Cyllid	43,933		43,933	43,933	0
Technoleg Gwybodaeth	48,591		48,591	48,591	0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948		469,948	469,948	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	10,509,734	299,226	10,808,960	10,808,960	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	1,125,850		1,125,850	1,125,850	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	100,000		100,000	100,000	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	195,847	61,271	257,118	257,118	0
Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG)	346,769		346,769	346,769	0
Trawsnewid Y System Ady	11,346		11,346	11,346	0
Fin-Ed Pathfinder Project	10,625		10,625	10,625	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	207,720		207,720	207,720	0
Ein Llais Ni	210,900		210,900	210,900	0
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>17,268,669</b>	<b>360,497</b>	<b>17,629,166</b>	<b>17,538,222</b>	<b>(90,944)</b>

	Cyllideb Chwarter 1 £	Addasiadau Chwarter 2 £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 £
<b>Incwm</b>					
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd					
- Cyngor Ynys Môn (21/22: 10.16% - 22/23: 10.14%)	(445,643)		(445,643)	(445,643)	0
- Cyngor Gwynedd (21/22: 17.63% - 22/23: 17.59%)	(772,960)		(772,960)	(772,960)	0
- Cyngor Conwy (21/22: 15.28% - 22/23: 15.26%)	(670,688)		(670,688)	(670,688)	0
- Cyngor Dinbych (21/22: 15.36% - 22/23: 15.48%)	(680,010)		(680,010)	(680,010)	0
- Cyngor Fflint (21/22: 22.72% - 22/23: 22.67%)	(996,049)		(996,049)	(996,049)	0
- Cyngor Wrecsam (21/22: 18.86% - 22/23: 18.86%)	(828,867)		(828,867)	(828,867)	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(10,509,734)	(299,226)	(10,808,960)	(10,808,960)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(1,125,850)		(1,125,850)	(1,125,850)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyngorydd Strategol	(100,000)		(100,000)	(100,000)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	(195,847)	(61,271)	(257,118)	(257,118)	0
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	(346,769)		(346,769)	(346,769)	0
Trawsnewid Y System Ady	(11,346)		(11,346)	(11,346)	0
Fin-Ed Pathfinder Project	(10,625)		(10,625)	(10,625)	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	(207,720)		(207,720)	(207,720)	0
Ein Llais Ni	(210,900)		(210,900)	(210,900)	0
Incwm Secondiadau	(155,661)		(155,661)	(155,661)	0
Incwm Arall	0		0	(856)	(856)
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(17,268,669)</b>	<b>(360,497)</b>	<b>(17,629,166)</b>	<b>(17,630,022)</b>	<b>(856)</b>
<b>Cyfanswm Cyllideb Net</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(91,800)</b>	<b>(91,800)</b>
<b>Memorandwm -</b>					
<b>Y Gronfa Tanwariant</b>					
			<b>Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2022</b>	<b>(437,503)</b>	
			Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2022/23	(91,800)	
			Llai - Defnydd o'r Gronfa	0	
			<b>Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>(529,303)</b>	



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 TACHWEDD 2022

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE – Adroddiad monitro chwarter 2

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 2 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

2.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth.

2.3 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynglwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 2.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

---

**3.2** Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

**3.3** Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 2.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 2

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol chwarter 2

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding



# Cynllun Busnes GwE 2022-2023 Chwarter 2 Adroddiad Cynnydd



[www.gwegogledd.cymru](http://www.gwegogledd.cymru)



@GwEGogleddCymru



## CYNNWYS

### 1. Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023

- Y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ranbarthol sydd yn cyfrannu at flaenoriaethau awdurdod lleol - Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 2

### 2. Atodiad : Data Rhanbarthol

Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 2

AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.

CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

**Cymorth i ysgolion wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol, arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil weithredu. Datblygu asesu ffurfiannol ymhellach**  
Mae hyfforddiant mewnol i YCG ar asesu ffurfiannol yn golygu bod YCG wedi'u paratoi yn dda at gefnogi ysgolion a chlystyrau unigol.

Yn ystod cynhadledd GwE i Benaethiaid ym mis Medi 2022 - 'Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli' - cynhaliwyd gweithdai gan YCG gyda dau weithdy yn canolbwyntio ar addysgeg - 'Asesu Ffurfiannol ar draws y continwwm - dyfnhau'r gwreiddiau' a 'Cynllunio ar gyfer yr Egwyddorion Cynnydd gan ddefnyddio strategaethau Tacsonomeg SOLO'. Cafodd yr ysgolion hynny a fynychodd y gweithdai gyfle i adolygu arferion asesu ffurfiannol yn sgil ymchwil diweddar a negeseuon a rannwyd. Cawsant ddealltwriaeth hefyd o dacsonomeg SOLO a'i botensial ar gyfer addysgu a chynnydd dysgwrr. Mae cryn ddiddordeb mewn tacsonomeg SOLO mewn ysgolion a gofynnwyd am sesiynau dilynol.

**Uwchsgilio YCG GwE i allu cynnig cymorth pwrpasol i'w hysgolion gydag addysgeg, asesu ffurfiannol, y 4 diben, asesu, cynllunio a phontio.**

Mae hyfforddiant asesu ffurfiannol mewnol i YCG ar egwyddorion a strategaethau effeithiol wedi sicrhau bod yr YCG yn wybodus am y datblygiadau diweddaraf ac wedi'u paratoi'n dda at gefnogi ysgolion efo datblygu asesu ffurfiannol. Yn ogystal, rhannwyd pecyn cymorth/hyfforddiant/adnoddau wedi'i ddiweddarau.

Mae cymorth Hyfforddi'r Hyfforddwr gan Mike Gershon i 15 YCG Uwchradd ac 15 YCG Cynradd wedi sicrhau bod YCG wedi datblygu eu sgiliau ymhellach i gyflwyno gweithdai a'u rheoli, a hynny er mwyn datblygu sgiliau addysgeg athrawon. Cynhelir hyn eto gyda rhagor o YCG maes o law.

**Asesu**

Mae traciwr cynnydd dysgwr wedi'i dreialu, ei adolygu, ei ddatblygu'n llawn a'i lunio'n derfynol ar y cyd ag ysgolion allweddol. Cynhaliwyd hyfforddiant i bob YCG y tymor hwn ar weithredu hyn er mwyn iddynt allu cefnogi eu hysgolion a'u clystyrau. Mae hyfforddiant penodol ar gael i ysgolion ar gais, ac i bob ysgol mewn cyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar draws y rhanbarth. Croesawyd yr hyfforddiant gan bod y traciwr yn bodloni'r hyn y mae ar ysgolion ei angen ar hyn o bryd. Rhannodd nifer o ysgolion ac/neu Gynghreiriaid eu prosesau a'u taflenni tracio fel rhan o'r hyfforddiant rhanbarthol. O ganlyniad, mae nifer o ysgolion wedi gallu adnabod prosesau a fyddai'n ffit orau i'w sefyllfa.

Cafodd ysgolion gymorth parhaus i ddatblygu asesu, gan gynnwys rhannu arferion llwyddiannus, naill ai cymorth pwrpasol gan YCG i ysgolion a chlystyrau a staff ALI lle bo'n briodol, neu trwy gael mynediad at sesiynau ar-lein a gyflwynwyd tymor diwethaf. Mae gan YCG fynediad at y sesiynau hyn er mwyn cefnogi eu clystyrau eu hunain.

Cafwyd gweithio partneriaeth pwrpasol gydag ysgolion i ddatblygu deialog broffesiynol, gan gynnwys rhannu negeseuon allweddol trwy hyfforddiant rhanbarthol. Adnabuwyd ysgolion ag arferion llwyddiannus yn y maes hwn a rhannwyd eu harferion.

Mae rhai ysgolion bellach yn gweithredu'n llawn y traciwr Cynnydd Disgybl ac/neu brosesau tracio eraill, ac yn dechrau defnyddio hyn yn effeithiol i ysgogi deialog broffesiynol a thracio dysgu a chyflawniad sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn yn cyfoethogi'r dysgu ac yn gwella cynnydd trwy wella cyfathrebu a thargedu cymorth. Codwyd ymwybyddiaeth am ddefnyddioldeb a pherthnasedd y traciwr. Amlygodd hyn negeseuon allweddol am y Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion sy'n seiliedig.



O ganlyniad i uwchsgilio'r gweithlu am asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru, mae ysgolion yn gwybod beth yw eu camau nesaf ac maent yn datblygu ymhellach, yn dylunio ac yn gwreiddio darpariaeth asesu. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth allweddol o ran gwella ffocws ysgolion ar asesu dysgwyr yn holistaidd.

### **Asesu wrth dderbyn i'r cyfnod Dysgu Sylfaen**

Cyflwynwyd sesiwn rhanbarthol a rhannwyd cyflwyniad ag ysgolion ac YCG ar drefniadau asesu Medi 2022, gan gynnwys strategaethau pontio effeithiol ac asesiadau yn cynnwys arsylwi yn erbyn gofynion statudol a phroffiliau un dudalen. Rhannwyd negeseuon allweddol i helpu gyda phontio i'r Meithrin.

### **Pontio**

Rhodddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr AGA ar gynllunio ar gyfer pontio llwyddiannus (Prif Ddarlith GwE a gweithdy 2-awr i 140 myfyriwr TAR yn CaBan).

Mae ysgolion yn dechrau datblygu trefniadau newydd ar gyfer cydweithio clwstwr i helpu efo dilyniant 3-16.

Cynhaliwyd gweithdy Pontio GwE ar 7/10/2022, gyda ffocws ar bontio llwyddiannus yn unol â'r CiG. Gwahoddwyd 2 ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd o bob clwstwr, ac roedd y rhan fwyaf o'r clystyrau yn bresennol. Mae'r rheiny nad oeddent yn bresennol wrthi'n cael eu hadnabod er mwyn targedu anghenion.

Mae ysgolion a chlystyrau ar draws y rhanbarth, yn ogystal ag athrawon AGA, wedi'u huwchsgilio mewn ffyrdd all gefnogi efo pontio llwyddiannus. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn am y gweithdy, ac mae pob clwstwr wedi cynllunio camau cadarnhaol iawn ac ymarferol, a ddylai brofi'n effeithiol.

Dyma'r camau nesaf yn dilyn gweithdy Pontio GwE:

- Rhoi gwybodaeth i ysgolion sydd yn egluro gofynion a threfniadau'r cynllun pontio newydd dan y Cwricwlwm i Gymru, a chyflwyno negeseuon allweddol y gweithdy mewn sesiwn ail gynnig i'r clystyrau (rhanbarthol) nad oeddent yn bresennol.
- Cefnogi clystyrau gyda'r prosiect peilot ar addysgeg.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu fel rhan o ddigwyddiad yn fuan ym mis Ionawr 2023 er mwyn ehangu arferion llwyddiannus.
- Cefnogi clystyrau unigol a grwpiau o glystyrau efo datblygu gweledigaeth glwstwr ar gyfer pontio .
- Cefnogi clystyrau ac ysgolion unigol efo gwella pontio - meithrin cydberthnasau, cydweithio, rhannu dysgu (cysyniad ysgol ganol), cynnydd mewn sgiliau, archwilio cyd-destun ehangach pontio, yn arbennig y tu hwnt i Blwyddyn 6-7.
- Datblygu gweithdy rhannu llwyddiant ar gyfer mis Ionawr 2023, ac estyn gwahoddiad i glystyrau o bob ALL.

## **GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

**Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni pob agwedd ar y Daith Ddiwygio trwy weithredu'r cwricwlwm newydd ar sail eu manau cychwyn unigol.**

Mae cyfres o sesiynau Dysgu Proffesiynol cenedlaethol ar y CiG wedi dechrau ar-lein yn nhyrnor yr hydref i gefnogi arweinwyr ac athrawon gyda'u gwaith ar y CiG. Mae'r tîm trawsranbarthol wedi diweddarau'r rhaglen genedlaethol i gynnwys enghreifftiau o ysgolion a chyfleoedd i ysgolion drafod arferion ag ysgolion ar draws Cymru mewn sesiynau trafod. Cyflwynir y sesiynau ar y cyd gan gyd-weithwyr trawsranbarthol a phartneriaeth fel rhan o fynediad teg i bob ysgol yng Nghymru. Lanswyd gwefan drawsranbarthol i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a rhannu recordiadau a deunyddiau ag ysgolion. Mae staff GwE yn gweithio o fewn timau i lunio pecynnau cefnogi fel rhan o'r rhaglen DP ranbarthol.

Mae'r effaith fel a ganlyn:

- Nifer cynyddol o sesiynau DP i gefnogi athrawon gydag ysgolion yn rhannu enghreifftiau ymarferol o'u proses.
- Lefelau ymgysylltu cadarnhaol gan ysgolion ar hyd a lled Cymru, gyda dros 228 o ymarferwyr yn mynychu a'r mwyafrif o'r rhain yn aelodau o'r UDA - mae dros 100 o ymarferwyr o ysgolion GwE yn mynychu.
- Yn ôl ffurflenni arfarnu'r rhaglen CiG mae 100% o'r rheiny sydd wedi cwblhau ffurflenni arfarnu yn cytuno'n gryf, neu'n cytuno, eu bod yn fodlon gyda'r profiad dysgu.
- Ceisiadau am sesiynau DP pwrpasol i glystyrau/ysgolion i gefnogi efo hyfforddiant staff ac ysgol gyfan er mwyn hwyluso penderfyniadau cwricwlwm.

- Pob YCG yn rhan o ddeialog broffesiynol gyson ag aelodau UDA pob ysgol yn ystod tymor yr hydref er mwyn adnabod dysgu proffesiynol i staff ysgol.
- Nifer cynyddol yn ymweld â chanolfan cefnogaeth Cwricwlwm i Gymru yn dangos bod ymarferwyr ysgolion yn gwylio recordiadau'r sesiynau DP ac yn edrych ar yr enghreifftiau.

### TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDaPh)

**Sicrhau bod gan bob ymarferydd o bob lleoliad fynediad at Ddysgu Proffesiynol a chymorth o safon uchel yn nisgyblaethau'r MDaPh a'r themâu trawsgwricwlaidd.**

Mae 804 o ymarferwyr yn mynychu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fel rhan o baratoi at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Mae'r 804 aelod hyn o ysgolion, o blith YCG GwE, cyd-weithwyr ALL, staff CaBan. Sefydlwyd 48 rhwydwaith lleol - 6 MDaPh, dylunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu. Sefydlwyd un rhwydwaith rhanbarthol ble mae rhwng 115 a 130 o ymarferwyr yn bresennol yn rheolaidd. Sefydlwyd trefn gyda chyfarfodydd rhanbarthol misol ble mae'r Athro Graham Donaldson yn bresennol ac yn cynnig arweiniad/sylwadau gyda phwyslais y cyfarfodydd ar ddisgwyliadau fel y'u nodir yn y Daith at Weithredu. Bydd pob cyfarfod lleol ar draws y chwe ALL yn cyfarfod bob mis rhwng y cyfarfodydd rhanbarthol. Ceir cyfathrebu ag aelodau drwy TEAMS, ac mae'n agwedd allweddol ar rannu gwaith â phob ysgol drwy YCG GwE, y wefan, diweddariadau rheolaidd mewn fforymau Penaethiaid. Trwy werthuso ffurfiol gyda Phrifysgol Bangor, dechreuwyd dod i ddeall yn well effaith y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.

Mae'r effaith fel a ganlyn:

- Mae mwy a mwy o ysgolion yn datblygu ac yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau dylunio a chynllunio ysgol gyfan o ran yr elfennau mandadol, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd.
- Mae mwy a mwy o ysgolion yn datblygu ac yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau dylunio a chynllunio ysgol gyfan e.e. gweithdai yn ystod y Gynhadledd ranbarthol ym mis Medi 2022.
- Mae mwy a mwy o ymweliadau â'r wefan i gael gafaél ar ddeunyddiau ac enghreifftiau sydd wedi'u rhannu gan rwydweithiau ac ysgolion:

1/9/21 - 23/3/22

2845 Cfw GwE Support Centre

2674 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

1/9/21 - 18/7/22

6587 GwE Support Centre

6492 Canolfan Cefnogaeth GwE

1/9/21 - 10/10/22

7358 Cfw GwE Support Centre

7239 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

Mae cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol cyntaf tymor yr hydref ar gyfer y CiG wedi'i drefnu at 26/10/22, sy'n fodd i ysgolion ac ymarferwyr gynefino â'r cwricwlwm newydd, rhannu profiadau cychwynnol ac unrhyw ddysgu hyd yma a chytuno ar ffocws y rhwydweithiau rhanbarthol.

Ymhellach i barodrwydd a strategaeth ysgolion i ymateb i ofnion statudol mis Medi 2022, mae pob lleoliad ysgol gynradd a'r ysgolion uwchradd hynny sydd yn dechrau ar y CiG ym mis Medi 2023 wedi dylunio crynodebau cwricwlwm, a chytuno ar y rhain â'u corff llywodraethau er mwyn rhannu yn ehangach.

## AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

### IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)

**Darparu egwyddorion a chodi ymwybyddiaeth ar draws pob lleoliad addysg o bwysigrwydd amlieithrwydd a blaenoriaethu ieithoedd ac ehangu dewisiadau dysgwyr.**

Mae gwaith gyda'r grwpiau rhanbarthol a lleol yn datblygu ymwybyddiaeth hon ar draws sectorau. Darperir

diweddariadau ac adnoddau rheolaidd ar amlieithrwydd yn yr adran ITM ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn ogystal â'r newyddlen. Ein bwriad yw datblygu'r agwedd hon ymhellach a cheisio gweithio gyda'r ysgolion arweiniol a hwyrach recriwtio ysgolion i beilota'r adnoddau er mwyn datblygu a chodi gwerth amlieithrwydd yn eu lleoliadau, ac arddangos hyn i ysgolion eraill yn y rhanbarth.

### **Cefnogi ysgolion a lleoliadau i gynllunio eu darpariaeth ar gyfer leithoedd Rhyngwladol (IRh).**

#### **Ysgol i ysgol a chefnogi clystyrau cynradd:**

Mae nifer da yn defnyddio'r cynnig Dysgu Proffesiynol. Mae'r ysgolion arweiniol wedi parhau i weithio o fewn eu clystyrau a'u cysylltiadau. Darperir cymorth ar lefel clwstwr ac ysgol pan ddaw ceisiadau i sylw'r tîm. Yn dilyn cymorth neu gyfarfodydd, dengys adborth gan ysgolion eu bod yn croesawu'r cynnig Dyfodol Byd-eang a'r cyfleoedd i ysgolion. Mae nifer yr ysgolion sydd yn gwneud cais am y tanysgrifiad i Power Language yn dal i godi. Ariennir y tanysgrifiad hwn (+15 ysgol yn y chwarter diwethaf: cyfanswm o 105 ysgol hyd yma). Mae nifer y cysylltiadau hefyd wedi codi (+21 yn y chwarter diwethaf: cyfanswm y cysylltiadau uniongyrchol ar y rhestr bostio: 202).

#### **Cymorth ysgol i ysgol uwchradd**

Mae Arweinwyr Hwb a'r Arweinydd IRh yn darparu cefnogaeth ar gais i ysgolion unigol neu glystyrau. Cynllunnir cyfarfodydd rhwydwaith yn dymhorol: cynhelir y cyfarfod nesaf yn ystod y chwarter nesaf. Mae cynnig Dyfodol Byd-eang GwE a gyhoeddir yn y newyddlen bob hanner tymor, gan gynnwys dysgu proffesiynol a phrosiectau datblygu'r CiG, yn ymateb yn uniongyrchol i'r anghenion a nodwyd gan Benaethiaid Adran yn yr haf. Mae ysgolion yn cofrestru ar gyfer yr amryfal gyfleoedd fydd yn digwydd yn ystod y chwarter nesaf.

#### **Datblygiadau BSL**

Sefydlwyd rhagor o gysylltiadau ag ysgolion, gan gynnwys ysgolion, athrawon BSL a grŵp Athrawon Plant Byddar Gogledd Cymru. Casglwyd cysylltiadau a manylion cefnogaeth bosib er mwyn datblygu cymorth i ysgolion sydd wedi dewis BSL. Trefnwyd cyfarfodydd dilynol er mwyn parhau i ddatblygu ystod o adnoddau i sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer BSL, a bod cynllunio cwricwlwm yn cyd-fynd â disgwyliadau a gweledigaeth y CiG.

### **Creu ar draws ieithoedd: Defnyddio barddoniaeth ar draws MDaPh ILICh fel ffordd o ddefnyddio iaith yn greadigol - sector Uwchradd**

Ysgolion prosiect 2021-2022: Mae'r prosiect y bu i'r ddwy ysgol uwchradd ei dreialu wedi dod i ben. Cafodd gwaith myfyrwyr ei arddangos yn Pontio ym mis Gorffennaf. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr ysgolion, a bu'n fodd i ymarferwyr ddatblygu syniadau ar gyfer cynllunio o fewn y MDaPh. Roedd ymarferwyr o'r farn bod y prosiect yn rhoi cyfle i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r elfennau cyffredin a ble gellir gwneud cysylltiadau rhwng y pwnc o fewn y MDaPh, ac ar draws MDaPh o bosib. Rhennir y prosiect a'r gwaith datblygiadol hwn ag ysgolion y rhanbarth trwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a dyddiau HMS pan fo'n briodol.

### **Dylunio ar gyfer leithoedd o fewn y CiG: Rhaglen i ysgolion Peilot yn 2022-2023**

#### **Sector uwchradd**

Gwahoddwyd ysgolion i gofrestru diddordeb yn y rhaglen beilot hon. Mae hyn yn gyfle unigryw i ymarferwyr leithoedd Rhyngwladol a Chymraeg gael gweithio ochr yn ochr â'r Athro Jenny Eddy o Goleg y Frenhines, Prifysgol Efrog Newydd i dylunio a gweithredu cynlluniau o fewn y MDaPh a fydd yn gweddu orau i'r weledigaeth a'u dyluniad cwricwlwm ysgol gyfan er mwyn gwireddu'r pedwar diben i bob dysgwr. Gwahoddwyd hefyd aelodau'r grŵp ILICh Rhanbarthol. Hyd yma, mae 33 ymarferwr a 26 ysgol wedi cofrestru. Bydd 4 aelod o'r Grŵp Rhanbarthol hefyd yn mynychu, yn cynrychioli dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg. Bydd y rhaglen yn dechrau ar 5 a 6 Hydref 2022.

### **Parhau i ddatblygu ar y gweithgarwch mewn ysgolion cynradd, i baratoi at y CiG**

Mae ysgolion arweiniol yn parhau i gynllunio a datblygu eu camau nesaf. Drwy gysylltu ag ysgolion sy'n rhan o ddigwyddiadau a chynnig Dyfodol Byd-eang, darperir arweiniad a chymorth i ddatblygu cwricwlwm sy'n gweddu orau i'w hysgol a'u cyd-destun.

Prosiectau ar waith:

- Prosiectau rhyngwladol a Rhaglen Taith: Rygbi yng Nghymru a Ffrainc - Normandi/hyfforddiant Power Language a chysylltiadau â Ffrainc, Sbaen a'r Almaen 2023-2024: ysgolion DP.
- BSL: datblygu cwricwlwm a Chynlluniau Dysgu ar gyfer BSL fel lefel sylfaenol IRh
- Adnoddau Power Language: Corffori leithoedd yn y Cwricwlwm: sesiwn hyfforddiant ar 16 Tachwedd 2022

- Cwrs uwchsgilio: Ffrangeg i athrawon cynradd - 9 Tachwedd a Ionawr 2022-2023
- Cyfarfodydd rhwydwaith IRh Cynradd - cyfarfod tymhorol wyneb yn wyneb neu hybrid, dyddiadau a lleoliad (yn ôl ALI neu Hwb - gweddu orau i anghenion ysgolion). Trafodaethau ar waith.

### **Parhau i roi sylw i'r her o ran niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd gyda chymorth ein partneriaid Dyfodol Byd-eang.**

Ceir dolenni i wefannau ac adnoddau defnyddiol i hyrwyddo ieithoedd ar dudalennau ITM/IRh Canolfan Cefnogaeth GwE. Yn ogystal, rydym wedi bod yn hyrwyddo mentora ITM ac wrthi'n trefnu dyddiau "Beth am astudio ieithoedd" i fyfyrwyr Blwyddyn 9 ym Mhrifysgol Bangor, er mwyn ceisio codi'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4. Nod 'Dylunio ar gyfer ieithoedd o fewn y CiG' yw cynnig proses i ysgolion peilot er mwyn sicrhau bod eu cynllunio yn arloesol ac yn seiliedig ar gyd-destunau perthnasol a chyfoes a chwestiynau diwylliannol a chymdeithasol hanfodol, a hynny ar yr un pryd â datblygu sgiliau iaith a gwybodaeth ar y cyflymder a'r dyfnder priodol.

#### **Cyswllt â Mentora ITM**

##### **Mentora Blwyddyn 8/9:**

Cynigiwyd lle i 21 ysgol yn y prosiect, gyda phedair o'r ysgolion hyn yn cymryd rhan mewn ffrwd newydd o'r enw Cysylltu Ieithoedd. Mae pedair ysgol ar y rhestr aros. Bob blwyddyn, mae nifer yr ysgolion sy'n dangos diddordeb yn codi. Mae nifer yr ysgolion sy'n dychwelyd yn uchel, sy'n tystio eu bod nhw'n teimlo bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar farn dysgwyr am ieithoedd.

##### **Beth am astudio ieithoedd: Diwrnod Prifysgol Bangor 10/ 11/22**

Gwahoddwyd ysgolion i gofrestru ar gyfer y digwyddiad a drefnir gan Dîm GwE ar y cyd â Routes Cymru.

Cynigir ystod o weithdai ar y diwrnod i ddisgyblion Blwyddyn 9, a fydd yn cynnwys sesiynau blasu iaith a gwybodaeth ddefnyddiol am astudio ieithoedd yn y brifysgol yn ogystal â gyrfaedd. Mae trafodaethau ar waith i gael dyddiau ychwanegol er mwyn ymateb i'r galw uchel.

##### **Dylunio ar gyfer ieithoedd o fewn y CiG: Rhaglen i ysgolion Peilot yn 2022-2023**

Hyd yma, mae 26 ysgol a 33 ymarferwr wedi cofrestru. Lledaenu'r rhaglen a'i datblygu o fis Mawrth 2023.

### **Rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau i'n hymarferwyr i gynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol**

Consortia Addysg Rhanbarthol a phartneriaethau i barhau i gynnig cymorth i ysgolion cynradd ac uwchradd y rhanbarthau baratoi at y CiG.

Cyllid i gael adnoddau Power Language: Mae 105 ysgol wedi gwneud cais hyd yma. Mae'r cynnig yn dal ar agor i ysgolion eraill.

Rhennir cynigion partneriaid Dyfodol Byd-eang ag ysgolion yn rheolaidd a thrwy'r amrywiol sianeli sydd ar gael.

### **Darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael profiad o ieithoedd yn yr ysgol gynradd, a chael profiad o ieithoedd ochr yn ochr â chysiau arholiad yn yr uwchradd.**

Rhennir cynigion partneriaid Dyfodol Byd-eang ag ysgolion yn rheolaidd drwy'r amrywiol sianeli. Mae tîm DBe yn gweithio'n agos iawn efo ysgolion ac yn nodi rhai cynigion gall fod yn fwy perthnasol i'w cyd-destun.

Taith: Rhannwyd manylion y rhaglen cysylltiadau Rhyngwladol a'i hyrwyddo. Anogir ysgolion i ddefnyddio'r cyllid i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion partner a chymryd rhan mewn amryfal brosiectau a datblygiad proffesiynol. Mae Tîm DBe GwE mewn cysylltiad agos â Taith ac yn sicrhau bod manylion perthnasol a'r cynnig yn cael eu rhannu'n rheolaidd.

*Oneworld*: cafwyd cyfarfod gyda chyfarwyddwr y rhaglen ym mis Medi 2022. Rhannwyd manylion ag ysgolion ynghylch cysylltu ag ysgolion o gwmpas y byd.

Hyfforddiant Power Language a chysylltiadau Rhyngwladol: Mae DBe GwE yn bwriadu gwneud cais am gyllid Taith, ar y cyd â DP, a threfnu prosiect fydd yn cyfuno cysylltiadau Rhyngwladol ag ysgolion a hyfforddiant trochi yn Sbaen,

Ffrainc a'r Almaen yn 2022-2024. Manylion yr ysgolion a'r prosiect i'w cadarnhau chwarter nesaf.

### **Darparu cymorth uniongyrchol i athrawon cynradd drwy raglen Athrawon yn Dysgu sut i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored.**

Noddir pob ysgol sydd wedi cofrestru ar y cwrs gan DBe GwE. Mae 50 o athrawon wedi cofrestru ar y cwrs hyd yma. Mae 10 o'r rhain wedi cofrestru ar gyfer ail flwyddyn y cwrs. Mae un ohonynt bellach yn athro cyswllt gyda'r Brifysgol Agored ac yn cefnogi'r athrawon sydd ar y cwrs ar hyn o bryd. Mae'r cwrs yn fodd i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyder mewn addysgeg iaith. Eleni, hoffem werthuso effaith y cwrs ar y gweithlu ac edrych ar sut i gynnwys yr athrawon hyn wrth gefnogi ymarferwyr eraill.

### **Darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion uwchradd drwy brosiect Mentora Myfyrwyr ITM Prifysgol Caerdydd yn 2022-23.**

**Mentora 22-23:** Mae DBe GwE wedi annog ysgolion i gofrestru eu diddordeb a tharged ysgolion ble mae niferoedd yn isel, neu nad ydynt wedi ymwneud â'r rhaglen o'r blaen. Mae recriwtio yn addawol: cynigiwyd lle i 21 ysgol yn y prosiect, gyda phedair o'r ysgolion hyn yn cymryd rhan mewn ffrwd newydd o'r enw Cysylltu Ieithoedd. Mae pedair ysgol ar y rhestr aros.

### **Gweithio gyda'n cyd-weithwyr yn y sefydliadau iaith i amlygu'r ystod eang o gymorth sydd ar gael i ysgolion, gan gynnwys cymwysterau, arbenigedd a chymorth dosbarth.**

Rhennir cyfleoedd a digwyddiadau a drefnir gan y Sefydliadau Iaith yn rheolaidd ag ysgolion. Anogir ysgolion i gymryd rhan ac mae cyfarfodydd rhwydwaith yn fodd i ysgolion rannu effaith digwyddiadau o'r fath ar eu dysgwyr. Mae hyn yn barhaus, ac fe fydd yn parhau.

### **Herio'r camdybiaethau o ran dysgu ieithoedd.**

**Ehangu ein gwaith cydweithredol gyda'n partneriaid Dyfodol Byd-eang er mwyn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu rhannu i godi proffil ieithoedd rhyngwladol.**

### **Darparu negeseuon a gohebiaeth gadarnhaol sy'n herio'r camdybiaethau negyddol o ran dysgu ieithoedd**

Mae cydweithio parhaus â phartneriaid er mwyn cytuno ar, a rhannu, deunyddiau megis fideos hyrwyddo, cyfathrebu a marchnata i fynd i'r afael â materion.

### **Hyrwyddo brand Dyfodol Byd-eang gyda phob ysgol yng Nghymru er mwyn sicrhau mynediad teg at gymorth i bob dysgwr.**

Datblygir cyfathrebu a marchnata yn barhaus. Y nod eleni yw defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol i hyrwyddo'r hyn sy'n digwydd mewn Ieithoedd ac yng ngogledd Cymru.

## **CALU - LLDC**

### **Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi**

Monitrowyd effeithiolrwydd y rhaglen 'Ymsefydlu' ddigidol a weithredwyd yn ystod 2021-22 gan ei haddasu yn unol â'r adborth ac unrhyw ddiweddariadau ar gyfer 2022-23 – yn enwedig o ran Cwricwlwm i Gymru. Cofrestrodd 77 cymorthydd ar gyfer yr hyfforddiant pedwar modiwl (rhestr chwarae) yn ystod 2021-22 ac oherwydd y darparwyd mynediad at y rhaglen ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, gwelwyd bod cymorthyddion yn cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant ar wahanol adeg o'r flwyddyn academaidd. Derbyniwyd adborth cyffredinol cadarnhaol iawn i'r hyfforddiant hwn yn ystod 2021-22, gyda'r mwyafrif yn nodi bod yr hyfforddiant wedi cael effaith uchel ar eu harfer.

Adolygwyd y systemau casglu data ar y cyd â'r Consortia eraill ym mis Gorffennaf 2022. Penderfynwyd yn genedlaethol bod angen annog y cymorthyddion i gwblhau y 4 modiwl. Ar hyn o bryd does dim amser penodol i gwblhau'r hyfforddiant e.e. 2/3 dymor. Crëwyd TEAM i gymorthyddion sydd yn cofrestru ar y rhaglen, fel man cyswllt gyda'r Cydlynnydd. Hysbysebwyd y rhaglen eto ym Mwletin GwE ac yn y Dosbarth Google i Gymorthyddion ym mis Medi.

### **Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith**

Cwblhaodd 2 glwstwr y rhaglen 'Cymorthyddion wrth eu gwaith', ac fe gychwynnwyd y rhaglen gyda 2 glwstwr arall. Adolygwyd cynnwys y rhaglen gyda gweddill y Consortia, yn ystod mis Gorffennaf. Mae 3 clwstwr arall yn awyddus i gynnal yr hyfforddiant yn y flwyddyn academaidd hon. Bydd y rhaglen ar gael yn rhanbarthol unwaith eto (wyneb yn wyneb) o ddiwedd Tymor yr Hydref ymlaen – mae paratapiau ar y gweill. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal

mewn 3 man ar draws y rhanbarth – yr Wyddgrug, Llanelwy a Caernarfon / Bangor.

### **Darpar CALU**

Cylch 4 – gorffennwyd y rhaglen ym mis Mehefin. Cynigwyd ‘syrjeri MDP’ i bawb oedd yn dymuno, er mwyn trafod eu Myfyrdodau Dysgu Proffesiynol ac i drafod trefniadau asesu. Cafodd hyn effaith gadarnhaol iawn ar y cymorthyddion gyda llawer wedi gwella safon eu myfyrdodau dysgu proffesiynol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.

Cynhaliwyd sesiwn adolygu ar 12/9/2022 ar gyfer ymgeiswyr asesiadau Cylch 4, ac bydd asesiadau Cylch 4 yn cael eu cynnal 17/10/22 – 11/11/2022. Cafwyd 15 cais ar gyfer Asesiad CALU.

Mae niferoedd Asesiadau Cylch 4 i lawr yn Genedlaethol hefyd oherwydd salwch, amgylchiadau yn yr ysgol, dim digon o brofiad arwain dosbarthiadau oherwydd y sefyllfa yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, diffyg cymwysterau, heb gwblhau'r rhaglen Darpar CALU. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio â chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu. Roedd y sesiwn dechnegol yn gymorth mawr gyda hyn. Yr adborth a gawsom ar lafar, oedd y byddai'n well gan y mwyafrif gael hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Cylch 5 – hysbysebwyd ar gyfer Cylch 5. Cafwyd 43 o geisiadau – derbyniwyd 39 a rhoddwyd cynnig i 2 gael lle ar Cylch 6, sy'n dangos niferoedd iach ar draws y rhanbarth. Bydd yr hyfforddiant yn cychwyn ym mis Hydref 2022 (cyfrwng Cymraeg neu Saesneg). Cynhelir Modiwlau 1 & 4 wyneb yn wyneb, ac fe fydd dewis o ran Modiwlau 2 & 3 – wyneb yn wyneb neu rhithiol.

### **Statws CALU**

Yn dilyn mynychu 8 sesiwn ddigidol Darpar CALU, bu i 82% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 3 wneud cais am asesiad statws CALU. Roedd 18% nad oedd wedi llwyddo i gael digon o brofiad addysgu dosbarth, neu na lwyddodd i ennill cymhwyster Llythrennedd/Rhifedd lefel 2 oherwydd effaith Covid. Roedd rhai wedi gadael y byd addysg. Bydd y rhain yn derbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 4. Bu 24 o Aseswyr yn cwblhau asesiadau Cylch 3. Cymedrolwyd pob asesiad yn rhanbarthol a sampl o chwech yn genedlaethol. Bodlonwyd 27/28, gydag 1/28 yn derbyn barn 'ni fodlonwyd eto' oherwydd diffyg profiad yn arwain dosbarthiadau cyfan.

### **Aseswyr CALU**

Cynhaliwyd hyfforddiant diweddar Cenedlaethol ar 3/10/22 dros TEAMS, a sesiwn galw i mewn i Aseswyr GwE ar 10/10/2022. Mae 4 Aseswr wedi ein gadael gan nad ydynt yn gweithio mewn ysgol mwyach.

### **Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru**

Crëwyd hyfforddiant newydd ar y cyd â'r Consortia eraill, er mwyn darparu cyflwyniad i gymorthyddion ar Cwricwlwm i Gymru. Rhannwyd yr hyfforddiant dros 2 sesiwn, ac roedd ar gael yn Gymraeg neu Saesneg. Darparwyd y sesiynau yn genedlaethol ar amrywiaeth o amseroedd, fel bod modd rhyddhau cymorthyddion. Addaswyd yr hyfforddiant er mwyn creu hyfforddiant unigryw ar gyfer un ysgol gynradd yn GwE (25 cymhorthydd).

## **Y Gymraeg**

### **Datblygu'r gefnogaeth i ysgolion i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae trafodaethau wedi parhau gyda swyddogion yr Awdurdodau Lleol gydag aelod o Dim GwE yn mynychu fforymau Penaethiaid yn ôl y gofyn a'r Is-bwyllgorau Fforymau Iaith sy'n cael eu sefydlu er mwyn ymateb i ofynion y CSGAU newydd

### **Cefnogi i ddatblygu twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg**

Mae cynllun rhanbarthol wedi'i lunio ar gyfer cefnogi'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ac ymarferwyr arweiniol wedi cael eu hadnabod. Mae trafodaethau gyda swyddogion awdurdodau yn parhau, sy'n arwain at gyd-ddealltwriaeth o'r ddarpariaeth i ysgolion gan amlygu unrhyw fylchau er mwyn cefnogi ymhellach. Mae cytundeb cenedlaethol i bob rhanbarth ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol ar y cyd ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith i'w cefnogi. Mae gweithgor wedi'i sefydlu a syniadau cychwynnol wedi'u nodi. O ganlyniad, mae cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael i gefnogi ysgolion fel sail i unrhyw addasiadau lleol fel bo'r angen.

## **Datblygu cynnig proffesiynol ar gyfer y Gymraeg wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (3-16) a chryfhau'r cydweithio/trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd**

- Ysgolion yn cysylltu i drafod cefnogaeth bellach ar gyfer datblygu'r addysgeg ac er mwyn cynllunio ar gyfer cynyddu sgiliau iaith y gweithlu.
- Sesiynau 'ar alw' wedi parhau i arweinwyr y Gymraeg uwchradd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog).
- Rhwydwaith bach o ysgolion cyfrwng Saesneg wedi'i sefydlu ac i'w ddatblygu ymhellach.
- Ceisiadau ar gyfer cefnogi ysgolion penodol yn parhau drwy YCG a'r gefnogaeth yn plethu i gynllun cefnogaeth yr ysgol ac mewn ymgynghoriad â swyddog o'r Awdurdod lle bo'n berthnasol.

### **Datblygu'r medrau:**

#### **Ein Llais Ni**

Mae dadansoddi cynnwys yr astudiaethau achos yn parhau gyda trafodaethau ar y dull mwyaf effeithiol o'u categorio e.e. yn cyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd, yn ôl sector. Mae 2 ysgol wedi cyflwyno eu gwaith mewn gweithdy yn ystod Cynhadledd Ranbarthol GwE – Medi 2022. Mae cynllunio ar y gweill ar gyfer digwyddiad i ddathlu gwaith y prosiect - 'Ein Llais Ni - Datblygu Siaradwyr y Dyfodol' ym mis Tachwedd 2022. Mae Prifysgol Bangor yn cwblhau gwerthusiad o'r ddarpariaeth gan GwE yn dilyn cyfweiliadau gydag athrawon a dadansoddi'r holiaduron i'r dysgwyr.

#### **Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'**

Mae'r gwaith cynllunio gyda'r cydlynwyr yn parhau. Adnabuwyd yr angen i rannu arferion llwyddiannus ar ddiwedd tymor y gwanwyn. Mae nifer o arweinwyr y Gymraeg ar draws y rhanbarth wedi mynychu cyfarfod rhwydwaith cenedlaethol y Siarter Iaith Uwchradd gan greu cysylltiadau cenedlaethol. Bydd cyfarfod nesaf y Siarter Iaith Uwchradd ym mis Ionawr 2023 a'r gobaith yw y bydd cynrychiolaeth o ysgolion y rhanbarth yn cyfrannu tuag at y cyfarfod cenedlaethol hwn.

#### **Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Miliwn o Siaradwyr LIC.**

Cydlynwyd cyfarfod gan yr Academi Arweinyddiaeth i dynnu'r ddarpariaeth gefnogol i ysgolion werthuso'r Gymraeg at ei gilydd, sydd wedi arwain at sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r trywyddau ymholi ar gyfer arweinwyr.

#### **Datblygu'r gweithlu Cymraeg a chyfrwng Cymraeg - sgiliau iaith y gweithlu addysg**

Mae adnodd pori gwefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei hyrwyddo yn rhanbarthol, sy'n arwain at gynnydd yn y mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y cwrs Sabothol. Mae aelodau o dîm GwE yn rhan o drafodaethau cenedlaethol ar gyfer datblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg.

## **SAFON UWCH**

#### **Datblygu arweinwyr effeithiol**

Mae Rhaglen Hyfforddiant Arweinyddiaeth Ganol (Ôl-16) yn cael ei darparu eto eleni, bellach gydag opsiwn ar gyfer achrediad ILM Lefel 5. Cynhelir y sesiwn dorfol gyntaf ar 18/10/2022. Mae 6 Pennaeth Chweched Dosbarth o'r rhanbarth yn dilyn y cwrs cenedlaethol. Mae cyfarfodydd rhwydwaith wedi'u trefnu ar gyfer mis Hydref. Mae Cynhadledd Ôl-16 ar y gweill ac mae 'Google form' i gasglu barn ar yr arlwy wedi'i rhannu â Phenaethiaid Chweched Dosbarth / colegau y rhanbarth.

#### **Sicrhau darpariaeth dysgu ac addysgu ôl-16 o ansawdd uchel**

Mae rhaglen hyfforddiant addysgu effeithiol ôl-16 ar gyfer ANG wedi'i chynllunio ar y cyd â'r consortia eraill ac yn barod i'w chyflwyno yn y chwarter nesaf.

#### **Cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16**

Defnydd ALPs ar lefel ranbarthol: Mae data ALPs ysgolion y rhanbarth wedi'i gasglu ar gyfer deilliannau 2022. Adroddiadau sirol a chonsortia lleol yn cael eu paratoi. Mynediad i ysgolion at eu adroddiadau hwy. Rhai ysgolion yn gwneud defnydd o ALPs i dracio cynnydd dysgwyr. Mae hyfforddiant ALPs ar gael i ysgolion.

#### **Cefnogi ysgolion i ddarparu amrediad o ddulliau i hyrwyddo lles eu dysgwyr**

Mae'r cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Chweched Dosbarth wedi rhoi cyfleoedd i rannu arferion da VESPA / Bloom a mynegi unrhyw bryderon cyffredinol am les dysgwyr.

**Prosiect Ymchwil Gwrth-fwlio KiVa**

Yn rhan o ymdrech barhaus GwE i seilio polisiâu ac arferion ar ddulliau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, gwnaethpwyd y prosiect hwn gydag ysgolion yng ngogledd Cymru i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd rhaglen gwrth-fwlio KiVa o ran lleihau nifer yr achosion o fwlio sy'n cael eu hadrodd gan blant yn ysgolion y DU o gymharu â'r drefn arferol. Mae GwE yn gyd-ymgeisydd ar y prosiect ymchwil ar raddfa fawr hwn i arfarnu effaith rhaglen gwrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn atal y prosiect oherwydd pandemig COVID-19, mae 30 ysgol yng ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Dewiswyd pymtheg o'r ysgolion ar hap i dderbyn KiVa yn 2021-22, a'r pymtheg arall yn 2022-23. Cafodd yr ysgolion ymyrraeth hyfforddiant yn nhymor yr Haf 2021, ac maent wedi bod yn cyflwyno KiVa er mis Medi 2021. Mae'r cyllid yma ar gyfer yr hyfforddiant a'r deunyddiau cymorth fel bod y 15 ysgol a reolir yn gallu derbyn KiVa yn 2022-23. Mae deuddeg o'r ysgolion a reolir wedi cadarnhau eu bod am gael yr hyfforddiant.

Recriwtiwyd 30 o ysgolion cynradd GwE ym mis Hydref 2019 yn rhan o grŵp o 116 o ysgolion ar draws y DU. Detholwyd ysgolion ar hap i naill ai gael hyfforddiant i gyflwyno KiVa, neu i fod yn ysgol a reolir i barhau â'r ddarpariaeth ddyddiol. Aeth yr ysgolion ymyrraeth ati i gyflwyno KiVa o fis Medi 2021 hyd Gorffennaf 2022, ac mae'r ymchwilwyr yn gobeithio cael canfyddiadau amodol deilliannau'r ddau grŵp ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r papur hwn yn brotocol astudio ble mae'r tîm ymchwil yn disgrifio'r treial yn fanwl i ymchwilwyr eraill. Gellir gweld canfyddiadau llawn yr astudiaeth drwy lawrlwytho'r papur agored gan ddefnyddio'r ddolen hon:

[The UK stand together trial: protocol ar gyfer hap-dreial clwstwr aml-ganolfan, wedi'i reoli, i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd KiVa o ran lleihau bwlio mewn ysgolion cynradd](#)

**Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L): Gwyddonwyr Ymddygiadol mewn Clystyrau**

Cynnig yw hwn i gael gwyddonydd ymddygiadol i weithio gyda grŵp gwahanol o ysgolion - neu glwstwr - yn ystod bob tymor yn 2022-23. Nod y prosiect hwn yw darparu hyfforddiant a mentora personol i athrawon yn y dosbarth er mwyn rhoi hyder a chysondeb iddynt wrth roi sylw i ymddygiad trafferthus yn y dosbarth.

Anogir athrawon a staff ysgolion i adnabod a chydabod ymddygiad cadarnhaol myfyrwyr ac ymateb yn gyson i ymddygiad heriol. Nod y prosiect yw canolbwyntio ar ysgolion sydd â phroblemau parhaus gyda naill ai tarfu ar lefel isel ac/neu staff sydd arnynt eisiau gwybod mwy am strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (y cyntaf o ddewis, i ddangos effaith). Er enghraifft, cyfarfod â staff i wella'u dealltwriaeth o strategaethau rheoli ymddygiad haen 1 (cyffredinol). Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE, a chadarnheir yr ysgolion sydd wedi ymgeisio erbyn hanner tymor mis Hydref 2022.

**Ymchwil Darllen ADY KESS**

Dyma gynnig i hyd at 4 ysgol AAA yn rhanbarth ddwyreiniol KESS i gydweithio â ni ar brosiect MRes KESS2 wedi'i ariannu, o fis Hydref 2022 - Mehefin 2023. Bydd hyn yn cynnwys Prifysgol Bangor, GwE ac ysgolion AAA yn y rhanbarth. Bydd y myfyriwr MRes a goruchwylwyr yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i gynnal archwiliad ac adolygiad cyflym o'r dulliau asesu ac ymyrraeth a ddefnyddir, byddant yn edrych ar brofiadau a barn staff o'r ddarpariaeth gyfredol, myfyrio ar y canfyddiadau, yr arferion presennol, a syniadau am sut i'w datblygu ymhellach a'u gwerthuso. Y gobaith yw y bydd y prosiect cydweithredol hwn yn ein galluogi ni i ddatblygu arferion cryf ymhellach a'u gwerthuso, yn ogystal ag adnabod meysydd i ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn helpu i wella deilliannau darllen i ystod eang o ddysgwyr. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE. Cadarnheir ysgolion ym mis Hydref 2022. Rhyddhawyd yr hysbyseb i recriwtio myfyriwr meistr KESS, a gobeithiwn allu penodi ddechrau mis Tachwedd.

**Economeg Iechyd a Chyllidebu Rhaglenni a Dadansoddi Ymylol (PBMA)**

Nod y prosiect hwn yw cefnogi a datblygu prosesau Penaethiaid ar gyfer gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio methodoleg effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac ymchwilio a yw ysgolion yn cynhyrchu data effeithiolrwydd a dilysrwydd cymdeithasol cadarn i gefnogi ymyrraethau yn yr ysgol ac ystyried gwerth am arian. Y nod hefyd yw gwerthuso effaith y prosiect drwy gadw golwg ar newidiadau yn y ddarpariaeth.



**Cefnogi cydweithredu ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr**

**Datblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn ymestyn y gyfran sydd yn gallu addysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Parhau i gefnogi cydweithredu ar bob lefel o arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei botensial.**

**Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i blant sy'n fregus i ddysgu, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant, lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol i gael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.**

**Parheir i ddatblygu ein gwaith mewn clystyrau, cynghreiriau a phontio rhwng sectorau i wella ansawdd a datblygu agenda Cwricwlwm i Gymru.**

Mae rhaglen lawn o hyfforddiant ANG cenedlaethol mewn lle y tymor hwn (6 sesiwn gwahanol). Cyfoethogir hyn ymhellach trwy hyfforddiant rhanbarthol tymor nesaf. Sicrheir cysondeb a chydweithredu trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda chyd-weithwyr consortia yn genedlaethol, a rhennir negeseuon allweddol yn rhanbarthol mewn cyfarfodydd lleol rheolaidd.

Gwneir cynnydd da gyda'r rhaglenni hyfforddiant ANG, GA a MS cenedlaethol, fel yn y ffigurau a ganlyn:

- 216 o ANG GwE wedi mynychu Sesiwn 1 (oddeutu 72% o garfan eleni)
- 78 o Wirwyr Allanol GwE wedi mynychu hyfforddiant (oddeutu 92% o'r GA sydd yn gweithio yng nghonortiw GwE)
- 62 o Fentoriaid Sefydlu GwE wedi mynychu Sesiwn 1

Cefnogir ANG yn gyson ar draws y rhanbarth, gan gynnwys trwy eu mynediad at ddysgu proffesiynol. Credwn fod gwelliant yn y Cymorth/arweiniad a ddarperir i ANG sy'n cyflawni cyfnod Sefydlu trwy waith cyflenwi byrdymor, a hynny o ganlyniad i adnabod hyn yn gynnar. O ran yr ANG sy'n cyflawni cyfnod Sefydlu trwy waith cyflenwi byrdymor gwelwyd cynnydd o 30% yn y nifer sydd yn mynychu hyfforddiant ANG.

Cynhaliwyd cyfarfodydd achredu. Mae CGA wedi darparu canllawiau pellach a chymau nesaf. Cyflwynir rhaglenni ADY AGA yn llawn ym mis Mawrth 2023 i'w hachredu o fis Medi 2024; mae'n bosib mai hon fydd rhaglen ADY AGA gydnabyddedig gyntaf Cymru. Mae cyfarfodydd efo LIC yn parhau er mwyn cael cyngor perthnasol a sicrhau bod rhaglenni yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgwyr bregus ac ADY. Ffocws dogfennau a ddatblygir ar hyn o bryd yw gwneud y rhaglenni yn gydnaws â meini prawf achredu a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Mae cysoni a chydweithredu pellach yn parhau - mae staff allweddol wedi cael cyfarfodydd a dysgu proffesiynol ar y cyd. Mae 11 o aelodau staff GwE wedi cyflwyno sesiynau ar raglenni AGA CaBan y tymor hwn; roedd y rhain yn cynnwys darlithoedd a gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb, a phrif ddarlith. Ffocws y rhain oedd addysgeg, y Cwricwlwm i Gymru, Hawliau Dynol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sgiliau digidol, dylunio a chynllunio cwricwlwm, llythrennedd a rhifedd. Mae sesiynau pellach ar y gweill. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth GwE CaBan wedi'i ddiweddarau i ystyried gwaith diweddar. Mae sesiynau diweddarau, Dysgu Proffesiynol a rhannu gwybodaeth bellach ar y gweill drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys Estyn lle bo'n briodol, er enghraifft trwy gyfarfodydd ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Bu staff GwE yn rhan o gyfarfodydd sicrhau ansawdd CaBan - mae cyfleoedd ar y gweill trwy gydol y flwyddyn academaidd i sicrhau ansawdd a chyfoethogi ansawdd ar y cyd, er enghraifft astudiaethau gwersi a monitro mewn ysgolion arweiniol.

Cryfheir cysondeb rhanbarthol trwy gydweithredu cadarn rhwng GwE a CaBan - mae'n sicrhau dull cyffredin yng nghyd-destun ymchwil a dysgu proffesiynol, a gwell integreiddiad fel sefydliad sy'n dysgu ar draws y rhanbarth. O ganlyniad i ddulliau diwylliannol cyson y ddau sefydliad, caiff athrawon fynediad at uwchsgilio cyfoes ac ystyrlon wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfa, ac mae rhaglenni a dysgu yn benodol i anghenion unigryw y rhanbarth, yn ogystal ag ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r cydweithio â'r BA yn parhau trwy gyfarfodydd partneriaeth rheolaidd. Mae'r ddarpariaeth wedi'i diweddarau a'i gwella i gynnwys cyllid pellach i fyfyrwyr cyfrwng Gymraeg mewn lleoliadau uwchradd. Mae rhannu gwybodaeth wedi digwydd ac mae gweithgarwch pellach ar y gweill i ddiweddarau rhanddeiliaid. Gall myfyrwyr gymhwyso fel athrawon mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys rhaglenni sefydlig ar waith drwy'r BA yn ogystal â'r llwybr

traddodiadol i AGA.

Y camau nesaf:

- Mae llwybrau cyson ar gyfer dysgu proffesiynol wrthi'n cael sylw a'u mapio, mae angen gwaith pellach yn y maes hwn. Wrthi'n gweithio ar lunio rhaglen ANG Ranbarthol i'w chyflwyno yn ystod tymor 2 a 3.
- Parhau â'r broses achredu ar gyfer llwybrau ADY AGA gan gynnwys cydweithio â CGA a LIC, yn ogystal ag ysgolion arweiniol trwy gyfarfodydd rhanddeiliaid a datblygu rhaglenni.
- Mae cyfleoedd pellach ar y gweill ar gyfer dysgu proffesiynol ar y cyd er mwyn sicrhau cydlyniaeth a chysondeb rhwng sefydliadau, gan gynnwys sicrhau ansawdd a chyfoethogi ansawdd ar y cyd.
- Diweddarau rhanddeiliaid er mwyn sicrhau cysondeb a chydweithio pellach.

## DIGIDOL

### Datblygu arweinyddiaeth ddigidol mewn ysgolion rhanbarthol

Mae'r rhaglen hwyluswyr digidol yn parhau i ddatblygu. Cynhaliwyd sesiwn briffio cyntaf y flwyddyn academaidd yn mis Medi ble gosodwyd yr amcanion ar gyfer eleni. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ac mae ymdeimlad cyffredinol bod y gwaith cydweithio o fewn y clystyrau yn cychwyn datblygu momentwm. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r rhaglen, nododd 84% o'r clystyrau a oedd yn bresennol eu bod wedi cychwyn ar y gwaith yn eu clwstwr, gyda 65% yn nodi eu bod wedi gallu cynnal sawl cyfarfod. Nododd nifer bod sefydlu gweithgor yn y clwstwr wedi bod yn heriol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda nifer o heriau mewn perthynas â Covid a phroblemau staffio yn ei gwneud yn anodd iawn sicrhau ymrwymiad ysgolion i'r rhaglen. Er gwaetha'r heriau, rydym yn hyderus bod y rhaglen wedi symud yn ei blaen yn llwyddiannus. Mewn ymateb i hyn, byddwn yn cynnig mwy o gefnogaeth unigol i hwyluswyr digidol / clystyrau er mwyn sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn effeithiol. Mae nifer o glystyrau wedi llwyddo i wreiddio'r rhaglen yn llwyddiannus yn eu clwstwr ac yn enghraifft o weithgorau sy'n gweithredu'n effeithiol yn ystod camau cyntaf y rhaglen. Mae rhai o'r hwyluswyr digidol hefyd wedi cyfrannu i'r cynnig dysgu proffesiynol eleni. Oherwydd newid rolau a swyddi, mae 16 o hwyluswyr newydd wedi ymgymryd â'r rôl yn ystod mis Medi a byddwn yn cyfarfod â'r unigolion hyn er mwyn eu cefnogi i ymgymryd â'u dyletswyddau cyn gynted ag y bo modd.

### Darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol i ddatblygu cyfleoedd i godi safonau mewn cymhwysedd digidol drwy Hwb.

Cynnig dysgu proffesiynol digidol - mae 275 o ymarferwyr wedi cofrestru i ddod i sesiynau hyfforddi. Cynhaliwyd hyfforddiant i arweinwyr digidol yn ystod mis Medi. Diwrnod cyntaf rhaglen 2-ddiwrnod oedd hwn, a oedd yn canolbwyntio ar elfennau ymarferol arwain y maes digidol mewn ysgolion. Mynychwyd y sesiwn gan 46 o arweinwyr digidol ar hyd y rhanbarth. Cynhelir Diwrnod 2 ym mis Tachwedd, a bydd carfan arall o arweinwyr yn cychwyn ym mis Ionawr 2023. Bwriad y rhaglen hon yw datblygu capasiti arweinyddol o fewn y clystyrau a bod rhagor o unigolion wedi'u huwchgilio i gefnogi gwaith yr hwyluswyr digidol.

### Gwreiddio 360 Digi Cymru fel prif adnodd hunanarfarnu dysgu digidol y rhanbarth.

Mae 226 o ysgolion y rhanbarth bellach wedi cofrestru ar system hunanwerthuso dysgu digidol, 360 Digi Cymru. Mae 105 o ysgolion wedi ailymweld â'r system er mwyn diweddarau eu gwerthusiad. Rydym yn parhau i annog ysgolion i ymgysylltu â'r adolygiad hwn. Rydym wedi recordio pecyn o weminarau i sicrhau bod cefnogaeth ar gael ar alw i ysgolion allu ymgysylltu. Fel rhan o'r rhaglen hwyluswyr digidol mae hwyluswyr yn gyfrifol am annog y defnydd o'r system hunanwerthuso a gofyn i bob ysgol yn eu clwstwr gwblhau'r adolygiad dros y tymor nesaf. Bydd y data cael ei drafod ar lefel clwstwr er mwyn dod o hyd i gryfderau o fewn y clwstwr yn ogystal ag agweddau cyffredin i'w datblygu.

## MATHEMATEG A RHIFEDD

### Cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder

#### Cynradd ac Uwchradd

Parhawyd i ddarparu cymorth pwrpasol i'r ysgolion yn y rhanbarth y bernir sydd 'mewn risg' neu mewn categori ESTYN. Mae hyn wedi arwain at gynllunio'n well ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a dealltwriaeth well o sut mae rhifedd yn cefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau/cyfarfodydd rheolaidd a niferus ag ysgolion wedi golygu hyfforddi staff, rhoi cymorth gyda chynllunio ac asesu cynnydd dysgwyr a sut i olrhain hyn i symud dysgwyr ymlaen a llywio eu darpariaeth, monitro effaith y gweithgareddau hyd yma a rhannu adnoddau sy'n berthnasol i anghenion staff/dysgwyr y lleoliad wrth iddynt symud tuag at ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Daeth ceisiadau newydd am gymorth pwrpasol i law gan YCG unigol fel rhan o'u cynlluniau cymorth ar gyfer ysgolion.

Y cymorth rhanbarthol ar hyn o bryd a'r CiG

### **Cyfarfod rhwydwaith lleol i Benaethiaid Mathemateg (6 a 8 Gorffennaf)**

Canlyniad hyn yw ysgolion yn rhannu arferion da, cydweithio ar ymgyfarwyddo â MDaPh Mathemateg a Rhifedd, cael gwell dealltwriaeth o'r pum hyfedredd mathemategol a'r goblygiadau addysgegol. Mae gan ysgolion ddealltwriaeth gliriach o'r camau angenrheidiol nesaf ar y daith i weithredu'r CiG yn llawn.

### **Asesiadau Personol**

Mae YCG wedi parhau i gefnogi ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi sicrhau bod gan ysgolion yr wybodaeth ddiweddaraf o ran canllawiau ac arferion effeithiol.

### **Pecyn sgiliau rhif sylfaenol**

Cynhyrchwyd pecyn 'Sgiliau Rhif Sylfaenol', sy'n cynnwys adnoddau dosbarth cyfan ac adnoddau unigol y gellir eu haddasu yn ôl anghenion dysgwyr ar draws y continwmm. Mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn cynnwys adran atebion. Rhydd yr adnoddau gyfle i ddysgwyr atgyfnerthu ac adolygu sgiliau sydd yn sgiliau allweddol i'w datblygu ar draws y continwmm, gan sicrhau bod dysgwyr yn rhugl yn y maes hwn. Mae'r adnoddau i'w gweld mewn Dosbarth Google, ac fe'u rhannwyd ag amrywiol ysgolion i'w treialu. Mae'n rhy gynnar i fesur yr effaith hyd yma; bydd gwerthuso yn digwydd tymor nesaf cyn eu rhannu'n rhanbarthol.

### **Gweithdy Mathemateg Cynradd/Uwchradd Tymor y Gwanwyn**

Cyflwynwyd cynlluniau i'r UDA ar gyfer trefnu gweithdy Mathemateg Cynradd/Uwchradd rhanbarthol yn nhymor y gwanwyn, ac fe'u cymeradwywyd. Mae siaradwyr gwadd a lleoliad wedi'u trefnu yn unol â chyllideb y Cynllun Busnes Cynradd ac Uwchradd. Amcanion y gweithdy yw hyrwyddo cydweithio ar draws y continwmm, datblygu addysgeg effeithiol a sicrhau rhannu negeseuon clir a chyson yn rhanbarthol.

### **Gweithgorau Ymchwil ac Arloesi mewn Mathemateg**

Cyflwynwyd cynlluniau i'r UDA ar gyfer creu gweithgorau ymchwil ac arloesi i edrych ar un o'r themâu a ganlyn, i gyd-fynd â gwaith parhaus y rhwydweithiau rhanbarthol CiG:

- Defnyddio adnoddau diriaethol a chynrychioliadau yn effeithiol
- Defnyddio strategaethau datrys problemau yn effeithiol
- Defnyddio cwestiynu a gwahaniaethu yn effeithiol
- Defnyddio'r hyfedreddau i gynllunio ar gyfer cynnydd
- Pontio llwyddiannus mewn mathemateg rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd

Nod y gweithgorau hyn yw hwyluso cyfleoedd i ymarferwyr:

- Rannu a thrafod arferion da ar draws y continwmm
- Ymgyfarwyddo ag ymchwil berthnasol
- Cydweithio ar gynllunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Adolygu a gwerthuso arferion sydd wedi'u treialu
- Ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o FDaPh Mathemateg a Rhifedd

### **CaBan/Prifysgol Bangor Medi 2022**

Cyflwynodd yr YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd bedair darlith - cyflwyniad i FDaPh Mathemateg a Rhifedd i fyfyrwyr TAR cyfrwng Cymraeg (tua 27 myfyriwr). Roedd y sesiynau hyn yn gymorth i ymarferwyr newydd gael dealltwriaeth well o'r pum hyfedredd mathemategol ac o addysgeg effeithiol mewn mathemateg er mwyn gallu cyflwyno'r CiG yn y dosbarth yn ystod y flwyddyn addysgol hon.

## **SAESNEG A LLYTHRENNEDD**

**Darparu cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n achosi pryder, fel bod modd iddynt yrru eu taith welliant eu hunain. Cefnogi ysgolion i ddeall diwygiadau'r cwricwlwm a'u gweithredu.**

### **Cynradd:**

Bodlonwyd pob atgyfeiriad am gymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder/sydd angen gwneud gwelliannau penodol mewn darpariaeth iaith a llythrennedd, gyda chymorth naill ai wedi'i gwblhau neu'n parhau.

Mae datblygu darpariaeth gwricwlwm ar gyfer y CiG wedi parhau yn y rhwydweithiau ILlCh lleol a rhanbarthol, a

rhannwyd arferion effeithiol ysgolion rhwydwaith penodol mewn DP rhanbarthol a chenedlaethol ar y CiG.

Comisiynwyd ysgolion sydd ag arferion effeithiol i ddarparu cyflwyniadau addysgegol/adnoddau llythrennedd sylfaenol i ategu pecynnau DP ar lythrennedd sylfaenol, a byddant ar gael diwedd tymor yr hydref/gwanwyn 2022/23.

#### **Uwchradd:**

Mae'r tîm wedi rhoi sylw i geisiadau penodol gan ysgolion a darparu cymorth.

Hyfforddiant Adeiladu Pŵer Darllen wedi parhau - cyfeiriwyd at effaith hyn mewn adroddiad Estyn yn ddiweddar. Mae hyfforddiant ychwanegol wedi ei roi i bob ysgol ym mis Gorffennaf 2022. Cynhaliwyd gyfforddiant *Talk the Talk* ym mis Gorffennaf 2022 i athrawon newydd gymhwyso/wedi cymhwyso'n ddiweddar. Mae datblygu darpariaeth CiG yn cael ei drafod y rhwydweithiau ILlCh rhanbarthol a lleol.

Mae cynlluniau a rhai dyddiadau bellach mewn lle ar gyfe sgiliau sylfaenol penodol i lythrennedd. Mae DP mewn lle ar gyfer tymor yr hydref/gwanwyn 2022/23, ar y cyd â chyd-weithwyr 3-8, 8-11 a 11-16.

### **Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD**

#### **Rhwydweithiau Y Gymraeg**

Yn ystod Chwarter 2, cynhaliwyd Cyfarfod Rhwydwaith 'Ar alw' (Teams) i Arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) yn dilyn hyfforddiant DPP CBAC er mwyn cadarnhau negeseuon pwysig a chael cyfle i rannu camau gweithredu dilynol. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer cynnal Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) mewn ysgol 'letyol', yn ogystal â threfnu cyfarfod tebyg i Arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Saesneg) yn ystod Chwarter 3. Gwnaed trefniadau hefyd i gynnal cyfarfod rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) yn ystod Chwarter 3. Sefydlwyd rhwydwaith o gefnogaeth rhwng adrannau y Gymraeg tair o ysgolion cyfrwng Saesneg y rhanbarth, a bydd y model hwn yn cael ei ddatblygu eto yn ystod Chwarter 3.

#### **Gweithdai ymgynghori a gweithgorau cenedlaethol**

Yn ystod Chwarter 2, anogwyd arweinwyr y Gymraeg y rhanbarth i fynychu gweminarau ymgynghori (e.e. Gweminar Ymgynghoriad MDaPh ILlCh – Cymwysterau Cymru) yn ogystal â pharhau i annog a hwyluso aelodaeth arweinwyr ar weithgorau cenedlaethol (e.e. Gweithgor Lefel Pwnc Y Gymraeg – Cymwysterau Cymru) er mwyn sicrhau bod llais y rhanbarth i'w glywed yn y sgysiau cenedlaethol hyn. Bydd cyfarfodydd i annog a hwyluso ymatebion i arolwg Cymwysterau Cymru o'r cynigion dylunio ar gyfer y cyrsiau TGAU newydd (Cymwys ar Gyfer y Dyfodol) yn ystod Chwarter 3.

#### **Gweithdai 'Cynhadledd Ranbarthol GwE – Medi 2022'**

Cafwyd cyfraniad gan arweinwyr dwy o Adrannau y Gymraeg ysgolion y rhanbarth i ddau o'r gweithdai a gynhaliwyd yn ystod 'Cynhadledd Ranbarthol GwE – Medi 2022'. Mynychwyd y gweithdai hyn gan Benaethiaid a Swyddogion yr Awdurdodau ar draws y rhanbarth.

**Prosiect 'Ein Llais Ni'** Yn ystod Chwarter 2 cyfrannodd un o Adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd y rhanbarth a fu'n rhan o'r prosiect 'Ein Llais Ni' eleni tuag weithdy'r prosiect a gynhaliwyd yn ystod 'Cynhadledd Ranbarthol GwE'. Bydd nifer o ysgolion uwchradd eraill y prosiect yn cyfrannu tuag at y digwyddiad 'Ein Llais Ni – Datblygu Siaradwyr y Dyfodol' a gynhelir yn ystod Chwarter 3, yn ogystal â chyfrannu at adroddiad ymchwil y prosiect a'r adnodd hyfforddiant DPP a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ac a rennir yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ystod Chwarter 3.

#### **Y Siarter Iaith Uwchradd**

Bu i nifer o arweinwyr y Gymraeg y rhanbarth fynychu cyfarfod rhwydwaith cenedlaethol y Siarter Iaith Uwchradd a gynhaliwyd yn ystod Chwarter 2 gan greu cysylltiadau cenedlaethol. Cynhelir cyfarfod nesaf y Siarter Iaith Uwchradd ym mis Ionawr 2023, a'r gobaith yw y bydd cynrychiolaeth o ysgolion y rhanbarth yn cyfrannu tuag at y cyfarfod cenedlaethol hwn.

#### **Design Space – Dylunio ar gyfer y Gymraeg CiG**

Yn dilyn cydweithio â'r YCG Ieithoedd Rhyngwladol (gweler Cynllun Busnes IRh/Dyfodol Byd-eang), trefnwyd gweithdai dylunio cwricwlwm ar gyfer ieithoedd o fewn MDaPh ILlCh fel rhan o ddyluniad cwricwlwm ysgol gyfan

dan arweiniad yr Athro Jenny Eddy o Coleg Queens, Efrog Newydd i ysgolion uwchradd y rhanbarth. Mynychwyd y gweithdai gan gynrychiolaeth o adrannau y Gymraeg ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg. Bydd gwaith yr ysgolion sy'n rhan o'r prosiect arloesol hwn yn parhau'n ystod Chwarter 3 a 4.

### **Athrawon ANG**

Yn ystod Chwarter 2, cyfrannwyd tuag at sesiwn hyfforddiant ar-lein yn cyflwyno'r Gymraeg (fel elfen fandadol CiG) ar gyfer athrawon ANG mewn ysgolion cyfrwng Saesneg un o ALI y rhanbarth.

### **Canolfan Cefnogaeth GwE**

Mae'r gwaith o ddatblygu tudalennau'r Gymraeg ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a'r nod yw y bydd y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau digidol 'byw' Teams a Google Classroom, gyda'r naill yn gartref parhaol a'r llall yn llwyfan datblygol. Mae'r cylchlythyr 'O'r Stordy' yn arf ychwanegol i rannu gwybodaeth ag arweinwyr ar draws y rhanbarth a bydd fersiwn ddwyieithog o'r cylchlythyr ar gyfer yr ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i'w rannu yn ystod Chwarter 3.

## **GWYDDONIAETH**

### **Cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru**

**Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau gyda MDAph Gwyddoniaeth a Thechnoleg, i'w helpu i weithredu'r cwricwlwm newydd yn y maes hwn.**

Darparwyd cymorth pwrpasol i bob adran sydd wedi gofyn am gymorth gyda CiG - mae aelodau'r adrannau hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith CiG yng nghyd-destun Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae ysgolion a gafodd gymorth, ac sydd yn gweithredu'r CiG ym mis Medi 2023, yn dechrau cynllunio unedau gwaith.

**Darparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol i arweinwyr ac athrawon MDAph Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gydag arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd.**

Cynhaliwyd rhwydweithiau lleol ym mhob awdurdod lleol yn ystod chwarter 1, a byddant yn ailddechrau yn ystod chwarter 3. Rhannwyd enghreifftiau ac adnoddau gan y grwpiau ac maent ar gael i ysgolion eraill ar-lein (gan gynnwys ysgolion nad ydynt yn rhan o rwydwaith), ac maent yn ddwyieithog. Mae'r adnoddau hyn yn sbarduno trafodaethau a syniadau i ysgolion eu hystyried.

**Helpu ysgolion a'u hadrannau Gwyddoniaeth i sicrhau bod eu dealltwriaeth o elfennau'r Cwricwlwm i Gymru yn datblygu, gan gynnwys cymhwys o datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd, y sgiliau cyfannol a themâu trawsgwricwlaidd o fewn Gwyddoniaeth.**

Datblygwyd gwefan MDAph Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'i chyfieithu i'r Gymraeg - mae'r wefan yn cefnogi ysgolion ac adrannau i ystyried y syniadau/themâu mawr mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a gwahanol dulliau o gynllunio ar gyfer dysgu. Rhannwyd y ddolen i'r wefan â phob ysgol. Wrthi'n datblygu enghreifftiau o ddull thematig o integreiddio sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

Yn ystod chwarter 2 bu HPS yn gweithio efo MAGNOX o'r Awdurdod Datgomiynu Niwclear (NDA) i ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu â busnes i ysgolion, a hynny fel rhan o ddatblygu cyfleoedd addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gyd gwaith (CWRE) fel thema drawsgwricwlaidd yn y CiG. Bydd y gwaith hwn yn parhau er mwyn sefydlu ymweliadau ysgol â'r cyfleusterau, a llysgenhadon STEM i ysgolion.

### **Asesu ac Atebolrwydd**

**Cefnogi ysgolion a'u hadrannau Gwyddoniaeth i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynnydd ac asesu.**

**Cefnogi ysgolion ac arweinwyr Gwyddoniaeth i werthuso a chyfoethogi eu darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.**

Roedd yr ail ddigwyddiad dysgu proffesiynol ar FDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn canolbwyntio ar ddeall a chynllunio ar gyfer cynnydd. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn o'r hyfforddiant hwn, ac mae'r adnoddau cefnogol ar y wefan Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi galluogi athrawon i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o gynnydd mewn dysgu a rôl y disgrifiadau dysgu wrth gynllunio ar gyfer dysgu.

Bwriedir datblygu hyn ymhellach yn Ch3 trwy HMS Sirol ac ymweliadau cefnogi ysgol.

### **Gwella Addysgu**

Datblygir cydweithio, gweithio rhwng ysgolion a rhannu arferion gorau drwy gyfrwng rhwydweithiau rhanbarthol MDAph Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae ysgolion sydd yn rhan o'r rhwydweithiau wedi magu profiad a dealltwriaeth werthfawr drwy weithio gyda'i gilydd a rhannu syniadau ar gyfer cynllunio'r dysgu ac ystyriaethau

addysgegol. Rhennir y gwaith hwn ar Ganolfan Cefnogaeth GwE i ysgolion eraill fynd ato. Yn ystod Ch3 datblygir rhwydweithiau athrawon arbenigol, yn enwedig mewn Technoleg (DHSB 2) a Meddylfryd Cyfrifiadurol (DHSB 6).

Datblygu gwefan TANIO - yn dilyn prosesau sicrhau ansawdd pellach bydd PowerPoints ac adnoddau eraill yn cael eu trosi yn dudalennau HTML fel bod defnyddio'r wefan yn fwy rhwydd a chyflym. Datblygir adnoddau Gwyddoniaeth Unigol TGAU, a bydd cardiau fflach dwyieithog i wella adalw Gwyddoniaeth AA1 ar gael i fyfyrwyr yn ystod chwarter 3. Gwelwyd nifer sylweddol o ymwelwyr â'r wefan a lawrlwythiadau dros gyfnod yr arholiadau, sydd yn dangos bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio'n eang ar draws y rhanbarth.

### **Cefnogi Arweinyddiaeth**

Mae ymweliadau ysgol yn parhau i gefnogi Arweinwyr Canol efo hunanarfarnu, adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a'r dysgu a'r addysgu.

### **OEDRAN 3-8**

**Darparu cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n achosi pryder, fel bod modd iddynt yrru eu taith welliant eu hunain. Gwella ymhellach y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ym mhob ysgol yn y rhanbarth wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru a'i weithredu.**

**Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn dda, neu'n well, ym mhob ysgol**

**Datblygu cydweithio ar draws sectorau a rhannu arferion da o ran asesu**

**Datblygu cydweithio ar draws sectorau ar bontio a rhannu arferion da**

**Sicrhau cysondeb negeseuon i ysgolion o ran y cwricwlwm, asesu a dysgu ac addysgu mewn rhwydweithiau traws-sector, a'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir gan GwE.**

Darparwyd cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder ar draws y rhanbarth (gweler data ALL). Mae bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd da yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, a staff a rhanddeiliaid yn uwchsgilio yn ystod y broses. Mae'r cymorth yn datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o egwyddorion ac addysgeg Dysgu Sylfaen ac yn cael effaith ar gynnydd dysgwyr.

Darparwyd rhwydwaith rhanbarthol i ymarferwyr ac YCG, yn rhannu arweiniad gan LC ar drefniadau asesu Medi 2022 wrth dderbyn i'r cyfnod dysgu sylfaen. Mae hyn wedi cynnwys strategaethau i sicrhau pontio ac asesiadau effeithiol, gan gynnwys arsylwi yn erbyn gofynion statudol a phroffiliau un dudalen. Rhannwyd negeseuon allweddol i helpu gyda phontio i'r Meithrin.

Cyflwynwyd hyfforddiant pwrpasol i ysgolion unigol a chlystyrau ar agweddau penodol ar y cwricwlwm. Mae hyn wedi uwchsgilio staff o ran y continwmm 3-11 yng nghyd-destun ymestyn a dyfnhau sgiliau o fewn y profiadau dysgu a'r amgylchedd.

Ymarferwyr ac YCG yn cyd-gyflwyno gweithdai gwaith coed i glystyrau, i ddangos effaith y ddarpariaeth Gwaith Coed ar ddatblygu sgiliau ar draws MDaPh, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Mae astudiaethau achos a rannwyd yn dangos ffyrdd effeithiol o arsylwi ac asesu drwy brofiadau bywyd go iawn sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion yn gyffredinol.

Trawstoriad o ysgolion ar draws y rhanbarth, 4 o bob ALL, yn rhan o brosiect ymchwil '*Communication Friendly Spaces Approach*'. Mae ymarferwyr yn myfyrio ac yn adolygu eu hamgylchedd dysgu tu mewn a thu allan. Mae ysgolion wedi cynnal awdit o'u hamgylcheddau a myfyrio ar effaith eu darpariaeth ar ddysgwyr, yn unol â'r canllawiau Galluogi Dysgu.

### **AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**

**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

### **ARWEINYDDIAETH**

**Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at gymell a mentora i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn**

## unol â safonau proffesiynol.

### Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol i Athrawon/Penaethiaid

Gan bod carfanau 2021-22 ar fin cwblhau eu rhaglenni datblygu, bu'r tîm yn gweithio ar recriwtio niferoedd cynaliadwy o ymgeiswyr sydd â phrofiad priodol ar draws y rhanbarth ar gyfer carfanau 2022-23. Hyd yma, mae nifer yr ymgeiswyr o safon yn galonogol.

Yn ôl gwaith monitro ac arfarnu anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau'r tîm darparu, mae pob rhaglen yn parhau i gael effaith dda ar hyder a gallu arweinwyr i gyfrannu at system gydweithredol a hunanwella. Yn ôl trafodaethau efo aelodau a'u rheolwyr llinell, mae'r rhaglenni yn cyfrannu'n gyson i ddatblygu ymarferwyr hunanfyfyrion sydd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol a datblygu eu gyrfa, ac maent yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'u rôl arweinyddiaeth, yn enwedig o ran gweithredu'r CiG yn llwyddiannus.

Mae'r rhaglenni yn parhau i sicrhau bod aelodau'r rhaglenni yn myfyrio'n llwyddiannus ar eu harferion proffesiynol fel arweinwyr ysgolion yn erbyn y Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol.

Mae aelodau wedi'u huwchsgilio a'u grymuso i arwain a chefnogi cyd-weithwyr yn eu lleoliadau, gan gryfhau'r capasiti arweinyddiaeth yn eu hysgolion.

Mae'r Llwybr Arweinyddiaeth yn hwyluso dysgu proffesiynol priodol i arweinwyr ar bob lefel, sydd yn cefnogi eu datblygiad i'r cam nesaf yn eu gyrfa.

Mae'r holl raglenni yn cael eu diweddarau yn briodol i gadw at yr agenda genedlaethol a rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag effaith y pandemig. Mae hyn yn digwydd ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

O ran y newidiadau yn y Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro, mae'r ddarpariaeth sefydlu ar gyfer Penaethiaid newydd ar draws y rhanbarth bellach yn fwy cyson, cefnogol ac effeithiol.

## LLYWODRAETHWYR

Caiff Cyrff Llywodraethu gefnogaeth effeithiol wrth benodi ar lefel Pennaeth ac UDA, yn unol â phrotocol GwE.

Yn rhan o'r cymorth parhaus ar gyfer Dysgu Proffesiynol i Lywodraethwyr, gwnaed cyflwyniadau ar draws y rhanbarth gyda'r nod o gyflwyno fframwaith Cwricwlwm i Gymru i Lywodraethwyr. Cafwyd niferoedd da yn sesiynau pob Awdurdod Lleol.

Nid oedd angen darparu hyfforddiant cyn-arolygiad yn ystod y chwarter hwn. Roedd cymorth ychwanegol ar gael i ysgolion mewn categori. Nawr bod arolygiadau ar y gweill, bydd cynrychiolwyr GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran paratoi at arolygiad.

## CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU

**Cydweithio ag arweinwyr ysgolion ar bob lefel i wreiddio ymhellach gyfraniad:**

- y clystyrau cynradd ac uwchradd
- cynghreiriau uwchradd
- rhwydweithiau rhanbarthol

**wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.**

**Sicrhau bod Cyrff Llywodraethu yn ymwybodol o bwysigrwydd cydweithio cynghrair/clwstwr, yn arbennig felly gan ei fod yn gysylltiedig â datblygu'r CiG.**

Mae un o linynnau allweddol y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef: *Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd*, yn rhoi hwb newydd i'r gwaith cydweithredol gydag arweinwyr ysgol ar bob lefel i fynd ati i wreiddio cyfraniad y clystyrau cynradd/uwchradd a'r cynghreiriau uwchradd. Wrth symud ymlaen, yr hyn a fydd yn cynnal ein hymdrechion ac yn sicrhau bod y newid diwylliannol yn cael mwy o afael ac effaith yw'r disgwyliad cenedlaethol i ysgolion weithio'n effeithiol gyda chymheiriaid ar arfarnu, cynllunio gwelliant a datblygu dull gweithredu a dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr.

Mae hyfforddiant EDT/y RHPY (SPP) wedi parhau, a chyflwynwyd clystyrau/cynghreiriau newydd i'r model a chynigiwyd sesiwn diweddar i'r rheiny a oedd eisiau ailgydio wedi cyfnod Covid.

O fis Medi 2022, canolbwyntir yn bennaf ar bontio gyda'r clystyrau cynradd/uwchradd a gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o 'gynnydd' a chymhwyso hyn.

Mae bron pob ysgol ar draws pob sector wedi gweithio'n effeithiol gyda chynghreiriau a chlystyrau lleol. Y ffocws pennaf oedd cydweithio fel clystyrau ar y CiG a chyfrannu at weithgareddau arfarnu a chynllunio gwelliant. Cryfhawyd eu gwaith gan gyfraniadau'r Rhwydweithiau MDaPh, Asesu a Dylunio Cwricwlwm ar lefel ranbarthol a lleol. O ganlyniad, mae nifer o gynghreiriau yn datblygu arferion cryf cynnar o ran cynllunio gweithgareddau ar y cyd i gefnogi'r daith ddiwygio ac agweddau ar wella ysgol. Mae clystyrau Cynradd wedi gallu gweithio ar ddatblygu blaenoriaethau clwstwr yn ymwneud â'r CiG ar gyfer eu CDY. Hefyd, mae arweinwyr yn dangos mwy o hyder wrth baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm.

#### AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYHNHWYSOL

##### Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

###### GDD PMG

###### **Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth. Gwreiddio'r model GDD PMG clwstwr/cynghrair ar draws y rhanbarth.**

Mae cynllun cymorth Grant Datblygu Disgyblion GwE ar gyfer 2022-2023 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan ganolbwyntio ar y meysydd a ganlyn: Disgyblion sy'n Gymwys i Gael Prydau Ysgol Am Ddim, Plant Mewn Gofal, Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar a Disgyblion sy'n Gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cael eu haddysgu mewn UCDAu ac EOTAS.

Mae tîm rhanbarthol newydd yn ei le gyda rolau a chyfrifoldebau clir. Mae gan GwE ddau Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Iechyd a Lles a Chyd-Arweinwyr ar gyfer GDD a GDD PMG. Mae'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant hefyd yn gweithio gyda'u hysgolion cyswllt i sicrhau bod pob ysgol yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar baratoi ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae GwE wedi datblygu model fframwaith GDD cyffredinol a weithredir mewn ysgolion/ALLau ar draws y rhanbarth. Mae'r ffocws wedi bod ar gefnogi ysgolion wedi'u targedu o fewn ALLau penodol i godi safonau dysgwyr PYD a sicrhau cyfeiriad strategol i gefnogi YCG i roi ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith.

Ein ffocws ar gyfer 2022/23 yw sicrhau bod pob clwstwr / ysgol AAA / UCD yn derbyn cyllid GDD PMG gyda ffocws ar gefnogi addysgu a dysgu effeithiol, iechyd emosiynol a lles, Dysgu Proffesiynol o ran ymagwedd ysgol gyfan at ymarfer sy'n seiliedig ar drawma ac cymorth ychwanegol wedi'i dargedu yn unol â'r CAP.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r 6 ALL i sicrhau cyfathrebu a chydweithio clir o ran cymorth ac ymyriadau ychwanegol gyda'r GDD PMG a bod holl gynlluniau clwstwr yn cael eu cymeradwyo gan GwE a'r ALL.

###### LLES Y GWEITHLU (GwE ac ysgolion)

###### **Cefnogi lles arweinwyr yng nghyd-destun yr heriau parhaus mewn arweinyddiaeth, a hynny trwy ddarparu 'Lle i Fyfyrio' i arweinwyr ysgolion ar draws y rhanbarth.**

Mae 'Lle i Fyfyrio' yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar draws y rhanbarth. Mae Mike Armiger a Coral Harper yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Rydym wedi dweud wrth 'Mindful Visionaries' am gynnal peilot ac maent wrthi'n gweithio gyda 3 arweinydd ysgol ar draws y rhanbarth.

###### LLESIANT YSGOL GYFAN (MDaPh)

###### **Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus i Gymru' trwy ddatblygu momentwm ein digwyddiad TEDxGwE llwyddiannus.**

Mae cynlluniau ar y gweill i ni fod yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Glyndŵr a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gynnal 'Peilot Arweinwyr y Dyfodol' i alluogi pobl ifanc (14-16 oed) i gyfrannu'n uniongyrchol at



ddatblygu Cynlluniau Llesiant rhanbarthol, a rhannu eu barn a'u syniadau ar sut y gellir mynd ati i wella lles ar eu cyfer nhw a phobl debyg yn eu hardal leol. Byddwn yn datblygu gwell dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn datblygu i fod yn 'ddinasyddion byd-eang a moesegol', ac yn datblygu ymdeimlad o hunan-ffeithiolrwydd a photensial i fod yn arweinwyr (heddiw) a'r dyfodol. Trefnwyd cyflwyno ar 21/11/2022. Bydd adolygu yn dilyn hyn er mwyn ystyried cyflwyno i leoliadau eraill.

### STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR

#### Sicrhau bod Helpu eich Plentyn i Ddysgu yn cael ei rannu'n effeithiol ag ysgolion, rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.

Mae grŵp rhanbarthol wedi'i sefydlu, gyda chynrychiolaeth o GwE a phob ALL, i arwain, rheoli a chydlynu'r maes cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysgu eu plant.

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn i Ddysgu (HYCTL) ar gyfer y Cynradd a Blynyddoedd 7 ac 8
- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu (HYTTL) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, 10 ac 11.
- Rhannwyd pecynnau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer HYCTL a HYTTL ag ysgolion.
- Datblygwyd pecynnau hyfforddi i gymorthyddion dysgu eu defnyddio efo rhieni (HYCTL a HYTTL).
- Crëwyd llwyfan ar wefan GwE gyda gwybodaeth i Rieni, Gofalwyr ac Ysgolion - mae hyn yn sicrhau mynediad rhwydd i bawb.
- 12 ysgol i dreialu'r pecyn hyfforddi ar gyfer Helpu eich Plentyn i Ddysgu. Bydd y grŵp yn ailymgynnull yn ystod tymor yr hydref gydag adborth. Yna bydd yr hyfforddiant ar gael i bob ysgol ar draws y rhanbarth.
- Gwahodd cyd-weithwyr uwchradd i fynychu hyfforddiant yn ystod tymor yr hydref. Y nod yw gwneud hyn gyda phob ysgol uwchradd ar draws y rhanbarth.

### AILGYDIO MEWN DYSGU

#### Cymorth i weithredu ymyraethau Geiriau Amllder Uchel (HFW)/Darllen Ailadroddol (RR) a Headsprout.

Mae dwy agwedd ar y ffrwd waith hon: **Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)** gan ddefnyddio strategaethau HFW a RR, a'r ddarpariaeth barhaus i ysgolion ddefnyddio rhaglenni darllen Headsprout, sef **Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)**. Mae'r prosiectau hyn yn barhad o'r gwaith a gychwynwyd y flwyddyn flaenorol. Dyma ddiweddariad:

#### Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)

Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyraeth i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio'r Dosbarth Google:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Mae 14 ysgol wedi mynychu sesiynau cymorth cwestiwn ac ateb dilynol ar-lein, ac wedi cael aelod o'r tîm ymchwil wrth law i roi cymorth gweithredu. Cynhaliwyd y sesiynau cymorth ym mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar gan ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS. Mae dwy ysgol wedi mesur cynnydd gan ddefnyddio adnoddau sgrinio DIBELS ac mae un ysgol yn monitro cynnydd. Mynegodd chwe ysgol arall ddiddordeb mewn mesur cynnydd disgyblion gan ddefnyddio DIBELS. Datblygwyd adnoddau Darllen Ailadroddol ymhellach i'w defnyddio gartref ac yn yr ysgol (cyfleoedd ychwanegol i ymarfer). Gwahoddwyd ysgolion i dreialu defnyddio'r deunyddiau gartref ac yn yr ysgol. Mynegodd bedair ysgol ddiddordeb. Drwy gydol 2021-22, rydym wedi parhau i ddiweddarau'r ymyraethau RR a HFW i'w gwneud yn ymarferol a haws eu defnyddio. Rydym ni hefyd wrthi'n dylunio llawlyfr iFOR ac yn creu fideos hyfforddiant syml a byr. Hysbysebwyd ym Mwletin GwE ym mis Medi 2022 i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant iFOR ym mis Tachwedd 2022.

### **Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**

Crynodeb o'r cynnydd hyd yma:

- Cymorth parhaus ar gael i ysgolion dros e-bost/galwad ffôn/galwad fideo gan Swyddog Ymchwil ar gyfer unrhyw gymorth sydd ar staff ysgol ei angen (technegol, prynu/adnewyddu trwyddedau, gweithredu, hyfforddiant, sut i fynd at yr adnoddau ac ati).
- Mae'r holl adnoddau, yn cynnwys canllawiau a fideos hyfforddiant o fis Medi 2021, ar gael ar Hwb i staff ysgolion a Dosbarth Google i rieni
- Hysbysebwyd holl fanylion y prosiect ym mwletin GwE ac ar Twitter.
- Yn Nhymor yr Hydref 2021, cefnogwyd pob ysgol gyda'r broses o adnewyddu eu trwyddedau presennol neu drwyddedau treial.
- Yn Nhymor y Gwanwyn 2022, ddwy weminar 'cychwyn arni gyda Headsprout' a dwy weminar 'sut i fonitro cynnydd' wedi eu cyflwyno (recordiwyd y rhain a'u rhoi ar Ganolfan Cefnogaeth GwE). Roedd 10 ysgol yn bresennol ac maent wedi parhau i gael cymorth parhaus ers hynny.
- Yn Nhymor yr Haf 2022 - 3 sesiwn cwestiwn ac ateb i ysgolion. Roedd dwy ysgol yn bresennol.

Camau nesaf tymor yr hydref 2022:

- Cymorth parhaus i staff ysgolion gan y Swyddog Ymchwil.
- Monitro Hwb i roi mynediad i ysgolion newydd
- Parhau i fonitro Google Classroom
- Diweddarau fideos hyfforddiant pan fydd angen

Hysbysebwr ym Mwletin Hydref GwE i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant KPR ym mis Tachwedd.

### **Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)**

Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamserol/anghydamserol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020 yn ystod y cyfnod clo.

Hyfforddwyd 33 o ysgolion mewn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn gyfrwng Cymraeg.

Yn ystod 2021-22, bu RILL yn canolbwyntio ar hyfforddi ysgolion newydd i weithredu'r rhaglen. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys tasgau anghydamserol, sesiwn hyfforddiant byw am ddiwrnod llawn gyda thîm RILL (dim mwy na 5 athro i bob sesiwn ar-lein) a thrafodaeth ddilynol fer. Roedd sesiynau galw heibio hefyd ar gael yn wythnosol i'r rheiny oedd arnynt angen rhagor o gymorth parhaus. Cynhaliwyd rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb hefyd gyda'r ysgolion oedd yn cymryd rhan.

Yn ogystal â rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau, crewyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogi i ysgolion, athrawon a rhieni. Ar y wefan ceir hefyd ddeunyddiau newydd i rieni eu defnyddio gartref gyda'u plant - gan gynnwys geirfa newydd, stori, pwyntiau trafod i annog rhyngweithio a defnyddio iaith lafar. Mae'r deunyddiau hyn yn cyd-fynd â'r deunyddiau RILL cyfrwng Cymraeg a bwriedir iddynt gael eu gosod fel gwaith cartref gan yr athro cyn y wers. Mae'r rhain yn cynnwys disgrifiadau/cyfieithiadau Saesneg i rieni di-Gymraeg, yn ogystal â fideos i gefnogi darllenwyr llai hyderus.

Rydym hefyd wedi datblygu a pheilota batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL.

Yn 2022-23, yr amcan cyntaf yw ymestyn RILL i ddarparu rhaglen iaith a llythrennedd yn Gymraeg i blant difreintiedig dros bymtheg wythnos gan ddefnyddio technoleg (h.y. cartref di-Gymraeg, SES a gallu isel) a phrofi pa mor effeithiol ydyw o ran gwella sgiliau iaith a darllen Cymraeg. Llwyddwyd i recriwtio 20 ysgol i gychwyn ar y gwaith ym mis Hydref 2022. Byddwn hefyd yn recriwtio 60 ysgol yn rhagor ar draws Cymru i gael hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn 2023.

### **Helpu ysgolion targed i ddefnyddio astudiaeth a strategaethau adolygu yn seiliedig ar dystiolaeth**

Nod y prosiect hwn yw casglu adborth a gwybodaeth am ymarferoldeb defnyddio set newydd o adnoddau profi ymarfer (iSTER) i helpu dysgwyr i wella deilliannau mewn TGAU mathemateg. Byddwn yn dechrau gweithio efo staff Ysgol Caergybi y tymor hwn ac mae hyfforddiant pellach i ddysgwyr wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i fod yn dysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Parhau i ddatblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.**

**Parhau i ddatblygu'r gallu i arwain ledled y system.**

**Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.**

Ers pedair blynedd bellach, ceir cytundeb â Phenaethiaid ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. Cytunwyd ar fodel adolygu a chynllunio gwelliant gan gymheiriaid (y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion [RhPY]), a chafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn Medi 2022 mae 29 o Ymgynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r RhPY. Derbyniodd holl aelodau newydd staff GwE ddiweddariad ar hyfforddiant y RhPY.

Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ystod Hydref 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant yn ystod Ebrill 2022 fe gyflwynwyd y rhaglen gyntaf o hyfforddiant RhPY wedi'i hwyluso yn llwyr gan staff GwE i garfan 3b yn ystod mis Mai 2022. Erbyn Medi 2022, mae 10 Ymgynghorwr Cefnogi Gwelliant ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant fel cyflwynwyr rhaglen. Golyga hyn bod 30 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach â'r gallu i gyflwyno'r rhaglen yn llwyddiannus. Yn dilyn y cynnydd hwn mewn cynhwysedd i gyflwyno'r rhaglen darparwyd hyfforddiant cychwynnol i 90 o ysgolion carfan 3C gan dîm hwyluswyr GwE.

Erbyn Medi 2022, mae 37 clwstwr/ cynghrair (206 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y RhPY, ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr hydref 2022. Mae 266 o Benaethiaid / uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 226 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel hwyluswyr gwelliant. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon uchel a fyddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r haen gyntaf a'r ail haen o ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm dderbyn hyfforddiant ymestynnol ar gyfer eu hwyluswyr gwelliant erbyn mis Medi 2022, gyda'r ffocws ar ddatblygu'r defnydd cynyddol ac effeithiol o ymchwil yn eu gweithdai gwelliant.

Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y RhPY i bob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau bob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 ac 2022-23. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl hwn, mae cyfres o gwestiynau myfyrio gyda ffocws ar y daith ddiwygio wedi'u creu i gyd-fynd â'r broses gymheiriol, ac fe gyfeirir ysgolion sy'n derbyn yr hyfforddiant at yr ysgogiadau cwricwlwm sy'n rhan o'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau nad oedd eisoes yn rhan o'r rhaglen fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y RhPY. Cafwyd cyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth yn mynegi diddordeb, a oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Erbyn diwedd mis Medi 2022 felly, mae hanner ysgolion y rhanbarth wedi derbyn yr hyfforddiant cychwynnol a bellach wrthi ar eu gwaith adolygu a chynllunio gwelliant gyda chymheiriaid, neu wedi dechrau.

Mae pedwar clwstwr / cynghrair o ysgolion wedi'u clustnodi i'w cynnwys mewn astudiaeth achos ag ymchwil i effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2022-23. Bydd ymchwilydd o'r *Education Development Trust* yn cwblhau'r gwaith yma ar ran y rhanbarth.

**Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at gymell a mentora, i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.**

Mae'r Rhaglen Gymell Genedlaethol wedi'i rhannu ag ysgolion a staff GwE – hyfforddiant i ddechrau yn fuan. Mae gwybodaeth am gymwysterau lefel 5 a 7 wedi'i rhannu ag ysgolion a staff GwE. Bydd yr wybodaeth am gymhwyster lefel 3 yn cael ei rhannu yn dilyn y sesiynau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'. Mae Sesiynau Goruchwyliaeth a gwahoddiad i'r Grwp Arfer Dda wedi'i rannu, a sesiynau Lle i Fyfyrio wedi'u rhannu ag ysgolion a staff GwE.

#### **YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER**

**Parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r ALL rhanbarthol perthnasol ar y peilot cenedlaethol amlasiantaethol i ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig a chymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori yn ddiweddar.**

**Ar y cyd â swyddogion yr ALL, cryfhau ymhellach strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder.**

**Cynllunio a chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.**

Parheir i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r ALL rhanbarthol ar y peilot cenedlaethol amlasiantaethol i ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig ac ar gymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori yn ddiweddar. Parheir hefyd i gydweithio â swyddogion yr ALL i gryfhau strwythurau ymhellach a sicrhau mwy o gysondeb mewn strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder.

Mae 4 ysgol uwchradd mewn Mesurau Arbennig ar hyn o bryd. Ni ragwelir y bydd yr un o'r 4 ysgol yn cael eu tynnu o gategori yn ystod y flwyddyn ysgol hon.

Mae gwaith yn parhau gyda chymorth 'ymadael cynaliadwy' Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori statudol yn ddiweddar.

Mae cynlluniau cefnogaeth 'holistaidd' pwrpasol 2022-23 ar gyfer yr holl ysgolion a nodir uchod wrthi'n cael eu trafod, a byddant yn cael eu cwblhau erbyn canol mis Hydref. Bydd y cynlluniau hefyd yn sicrhau bod pob ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol wrth iddynt gynllunio a chyflwyno eu cwricwlwm newydd, a byddant yn sicrhau eu bod yn gweithio'n gynyddol gyda'u cynghrair/clwstwr ac yn ehangach er mwyn gwella arweinyddiaeth, darpariaeth ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.

#### **YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)**

**Sicrhau bod GwE a'i weithlu yn parhau i ymateb i holl ofynion a gwerthoedd Sefydliad sy'n Dysgu.**

**Helpu ysgolion ar draws y rhanbarth i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn yw Sefydliad sy'n Dysgu, fel ei fod yn dod yn rhan naturiol o ddiwylliant ysgolion.**

**Cryfhau ymhellach ein partneriaeth gyda SAU a datblygu ymwybyddiaeth myfyrwyr o YSD.**

Yn sgil dadansoddi ymateb staff GwE i'r holiadur Sefydliad sy'n Dysgu, daeth yn amlwg mai 'sefydlu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio' yw'r dimensiwn sydd i'w ddatblygu ymhellach. Yn ystod y pandemig, cryfhawyd yr agwedd hon yn sylweddol, gyda'r gwasanaeth wedi ailgyfeirio ei hun 7 gwaith dros y cyfnod er mwyn ymateb i anghenion ysgolion. O ganlyniad, mae YCG GwE wedi gorfod ymchwilio i ffyrdd gwahanol o gefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod ansicr hwn gan arwain at waith arloesol mewn defnyddio TGCh. Bu'r 4 thema drawsliniol sef Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl gyda'n Gilydd yn hanfodol dros y cyfnod hwn er mwyn cryfhau ymhellach y bartneriaeth rhwng y gwasanaeth ac ysgolion.

Bu'n rhaid i'r cyswllt ag ysgolion yn ystod y pandemig fod yn sensitif iawn oherwydd yr holl bwysau rheolaethol o sicrhau mai iechyd a lles disgyblion a staff sydd yn dod yn gyntaf. Un effaith yw bod ysgolion wedi datblygu'n naturiol mewn nifer o ddimensiynau, e.e. sefydlu diwylliant o ymholi, ymestyn y defnydd o systemau, hybu dysgu mewn tîm a datblygu gweledigaeth a rennir. Datblygwyd y 4 thema drawsliniol yn sylweddol hefyd - yn enwedig yr elfen dechnoleg. Cefnogir ysgolion ymhellach yn awr i edrych ar, a datblygu ymhellach, eu diwylliant ymholi drwy enghrefftio gwaith ysgolion y PYPC a hefyd cyfeirio at arferion effeithiol yn y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio arolwg eiddoedd YSD i'n dawl o ystyried y cyfnod anodd y bu pob ysgol

drwyddo yn ystod y pandemig. Isel iawn fu'r ymateb i'r arolwg hyd yma ac mae'n agwedd y bydd angen ei hyrwyddo ymhellach yn ystod gwaith y tymor nesaf a bydd yn rhan naturiol o brosesau ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu gwaith Cwricwlwm i Gymru. Bwriadwn ailgyflwyno sesiynau adolygu i bob ysgol sydd â diddordeb, naill ai drwy recordio gweminarau neu gynnal sesiynau anghydamserol.

Mae angen gwneud gwaith datblygu pellach gyda'n partneriaid SAU i edrych ar Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a sicrhau bod gan ein myfyrwyr ddealltwriaeth ddyfnach o YSD a'u gwerthoedd.

## AMCAN 6 - BUSNES

### Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

#### Systemau rhannu gwybodaeth

Mae dangosfwrdd gyda chanlyniadau arholiadau CA4 a CA5 wedi'i ryddhau ar ddechrau'r tymor. Bwriedir datblygu a rhyddhau dangosfyrddau dangosyddion CA4 a data PLASC ysgolion y rhanbarth yn ystod y tymor, a fydd yn galluogi staff i gynhaeafu'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen yn sydyn.

#### Rheoli Perfformiad a Llywodraethu

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir gyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Mae cynlluniau wedi'u costio'n llawn, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion.

Ceir trefniadau hunanarfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau bob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro bob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunanarfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunanarfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

#### Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

#### Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir bob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr bob chwarter.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

## 2. ATODIAD:

Data Rhanbarthol



GWE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding



# Cynllun Busnes GwE 2022-2023 Data Rhanbarthol Chwarter 2



[www.gwegogledd.cymru](http://www.gwegogledd.cymru)



@GwEGogleddCymru



## CYNLLUN BUSNES 2022-2023

### BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2022-2023

#### Data Rhanbarthol ar gyfer Chwarter 2

#### AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.

#### CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

##### Data Rhanbarthol:

Ffigyrau presenoldeb gweithdy Pontio Rhanbarthol GwE: 157

#### GWIREDDU CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)

##### Data Rhanbarthol:

##### 6 cam o wireddu'r cwricwlwm:

##### Crynodeb Gwe – Pob Ysgol

##### Nifer Ysgolion – 404

1. Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben – 99.5%
2. Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm – 98.9%
3. Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol – 98.6%
4. Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol – 97%
5. Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol – 94%
6. Dylunio, cynllunio a pheilotia'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig – 93%

#### TIMAU MDaPh

##### Data Rhanbarthol:

##### Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Rhanbarthol

21/09/21 – 132 yn bresennol

6/10/21- 115 yn bresennol

16/11/21 – 117 yn bresennol

14/12/21 – 130 yn bresennol

2/3/22 – 116 yn bresennol

5/4/22 – 112 yn bresennol

27/4/21 – 115 yn bresennol

7/6/22 - 105 yn bresennol

29/6/22 – 101 yn bresennol

Mae cyfanswm yr ymarferwyr sy'n ymwneud â'r rhwydweithiau yn parhau yn 806 sy'n cynnwys cydweithwyr GwE, LA a CABAN.



**AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL****Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion****IEITHOEDD TRAMOR MODERN****Data Rhanbarthol:**

Power Language - tanysgrifiad 2-flynedd: 105 ysgol

Power language - Hyfforddi cynradd - Power Language: Nifer yr ysgolion a gofrestrwyd hyd yma (29 athro)

Uwchsgilio cynradd: Nifer yr ysgolion a gofrestrwyd hyd yma - 10 athro

PA 2022-2023: Nifer yr ysgolion - 14 athro

Mentora Blwyddyn 8/9 - diddordeb: 25 ysgol (4 wrth gefn)

Rhaglen dylunio ar gyfer ieithoedd: Nifer ysgolion sydd wedi eu cofrestru hyd yma - 34 o athrawon

Prosiect Creu ar draws ieithoedd - 2022-2023

Nifer yr ysgolion sydd â diddordeb, hyd yma: 3

*Let's take Languages:* Diwrnod prifysgol ar gyfer blwyddyn 8/9:

Nifer yr ysgolion sydd â diddordeb, hyd yma - 300 o ddisgyblion

**CALU - LIDC****Data Rhanbarthol:**

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi: 11

Cymorthyddion wrth eu Gwaith: 88

Darpar CALU Cylch 4: 26

Statws CALU Cylch 3: 27

Darpar CALU Cylch 5: 39

Aseswyr CALU: 31

Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru: 207

Dosbarth Google i gymorthyddion

Niferoedd Rhanbarthol:	1845 erbyn Medi 2022
------------------------	----------------------

**Y Gymraeg (PL)****Data Rhanbarthol:**

Ein Llais Ni – astudiaethau achos wedi eu cyflwyno: 65

**SAFON UWCH****Data Rhanbarthol:**

6 Pennaeth 6ed dosbarth yn mynychu Rhaglen Genedlaethol Arweinyddiaeth Ganol/Ôl-16.

**YMCHWIL A GWERTHUSO****Data Rhanbarthol:**

Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa: 30

**DIGIDOL****Data Rhanbarthol:**

Canran o ysgolion y rhanbarth oedd yn ymgysylltu a Hwb yn ystod y chwarter - 98.08%

**MATHEMATEG A RHIFEDD****Data Rhanbarthol:**

	Nifer yr ysgolion	Nifer o ymweliadau
Cymorth ysgolion pwnc unigol cynradd	0	0
Cymorth ysgolion unigol uwchradd	12	17

**SAESNEG A LLYTHRENNEDD****Data Rhanbarthol:**

Ymweliadau cymorth pwrpasol cynradd: 5

Ymweliadau pwrpasol Uwchradd a DP: 17

**CYMRAEG A LLYTHRENNEDD****Data Rhanbarthol:**

Cyfarfod 'Ar alw' Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg yn dilyn hyfforddiant DPP CBAC (yn ogystal â'r nifer â fynychodd hyfforddiant): 17

Rhwydwaith Cefnogol Athrawon y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg: 3

Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE) - nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r prosiect: 14

Y Siarter Iaith Uwchradd – cyfarfod arlein 21.09.22: 8

Hyfforddiant 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd CiG' – cynrychiolaeth o adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd: 14

Cyfarfod arlein i athrawon ANG mewn ysgolion cyfrwng Saesneg – 6.10.22: 5

Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd': 27

Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg – Uwchradd YCS' - mae aelodaeth y rhwydwaith digidol hwn ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn parhau i gynyddu: 17

**GWYDDONIAETH****Data Rhanbarthol:**

Gweminar STEM Gogledd 5 (07.07.22): Datblygu cymuned STEM o Gyflogwyr a Chysylltiadau Busnes gydag ysgolion: 17 yn mynychu.

**OEDRAN 3-8****Data Rhanbarthol:****Rhwydwaith Tymor yr Haf: Tua**

- Cymraeg 139
- Saesneg 151

**Cymorth ysgolion**

Nifer o ysgolion	Nifer o ymweliadau
25	36

Cymorth clwstwr - nifer yr ysgolion: 36

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**

**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**ARWEINYDDIAETH****Data Rhanbarthol:****CARFAN 2021-22**

	2021-22
1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol	102
2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr	72
3. Rhaglen Datblygu Penaethiaid (Paratoi ar gyfer CPCP)	35
4. Rhaglen Datblygu newydd a Phenaethiaid Dros Dro	32
5. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol	17
<b>CYFANSWM</b>	<b>258</b>

**AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**AILGYDIO MEWN DYSGU****Data Rhanbarthol:****Gwella rhuglder mewn Darllen Llafar (iFOR)**

Mae 52 ysgol a 66 o athrawon wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddi ar-lein, ac adnoddau ymyrraeth i'w lawrlwytho i'w defnyddio yn eu hysgolion. Dyma nifer yr athrawon sydd wedi cyrchu ystafell ddosbarth Google:

- 63 wedi cyrchu'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi cael mynediad at yr adnoddau Cymraeg.

**Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR): 45**

Dyma ddadansoddiad o nifer yr athrawon, rhieni a safbwyntiau adnoddau ar-lein:

	07/2021	07/2022
Nifer yr ysgolion sydd wedi adnewyddu trwydded(au) yn uniongyrchol ers Medi 2021	30	15
Nifer y disgyblion wedi ymuno â Google Classroom	40	40
Nifer o staff wedi ymuno â Hwb	71	73
Wedi gwyllo canllaw fideo: <i>Headsprout</i> gartref (Rhieni a staff)	399	513
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i ddefnyddio storiâu <i>Headsprout</i> (Rhieni)	106	363
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i gynnal Meincnodau (Rhieni)	18	46
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i gynnal adeiladu rhugulder (Rhieni)	13	54
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i sefydlu treial am ddim / prynu neu adnewyddu trwydded (Staff yr Ysgol)	65	77
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i ychwanegu disgyblion i'r rhaglen (Staff yr Ysgol)	84	135
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i wirio sgôr (Staff yr Ysgol)	39	85
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i fewnbynnu sgor meincnodi (Staff yr Ysgol)	16	25
Wedi gwyllo canllaw fideo: Sut i gael mynediad at Google Classroom (Rhieni)	33	50
Gweminar 1 Cychwyn gyda <i>Headsprout</i>	-	2
Gweminar 2 Monitro cynnydd wrth ddefnyddio <i>Headsprout</i>	-	0

**Data Rhanbarthol:****Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)**

Mae 33 ysgol wedi cael eu hyfforddi yn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn rhai cyfrwng Cymraeg.

**AMCAN 5 - CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID****Data Rhanbarthol:**

Nifer o ysgolion /clystyrau /cynghreiriau sy'n rhan o'r rhaglen: 206 / 37

Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd: 266

Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 226

**Data Rhanbarthol:**

Ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig: 4

Ysgolion cynradd mewn Mesurau Arbennig: 1



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 TACHWEDD 2022

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Y bwriad i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Hysbysu'r Cyd-bwyllgor am y bwriad i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod COVID er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth ac i gydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, yn draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraff allanol. Wrth i ni barhau i gefnogi ysgolion yn y cyfnod wedi'r pandemig, mae'n amserol adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol i sicrhau ein bod yn parhau i esblygu a datblygu er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol ar ôl Covid.

2.2 Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol a pharhau i gefnogi ysgolion efo gweithredu'r cwricwlwm newydd, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygyd pan

---

gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi at y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y blynyddoedd diwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Rydym wedi cydnabod y bydd angen i'n Dysgu Proffesiynol esblygu i gynnig llai o ddarpariaeth a gyflwynir yn ganolog a rhagor o ddysgu proffesiynol ar sail ysgol i ysgol (a chlwtwr i glwtwr). Rhagwelir mai'r meysydd a ganlyn fydd ein Cynnig Dysgu Proffesiynol rhanbarthol allweddol dros y blynyddoedd nesaf: Gwella Sgiliau Dysgwyr; Gwella'r Profiad Dysgwr; Addysgeg; Tegwch a Lles; 'Y Gymraeg'; Asesu a Chynnydd Dysgwr a Datblygu Arweinyddiaeth. Bydd dysgu proffesiynol yn allweddol wrth gefnogi ysgolion i weithredu eu blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol a'u symud yn eu blaenau. Cytunir ar gynllun cymorth gyda phob ysgol a lleoliad yn unol â gofynion y Canllawiau Gwella Ysgolion (Mehfin 2022).

**2.3** Mae'r canllawiau gwella ysgolion newydd (Mehfin 2022) yn cynnig pwynt cyfeirio i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, sy'n amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ganddynt, yng nghydestun eu dyletswyddau cyfreithiol ehangach. Diben cyffredinol gwella ysgolion yw helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir, er mwyn sicrhau safonau uchel ac uchelgais i bawb. O dan y Cwricwlwm i Gymru, rhan sylfaenol o hyn fydd sicrhau bod ysgolion yn cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd, gan gyfrannu at y pedwar diben. Mae'r canllawiau yn cefnogi'r amcan hwnnw drwy nodi fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a fydd yn sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn ysgolion ac yn ysgogi ymddygiadau ac arferion sy'n ofynnol gan y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae'n hollbwysig bod pob agwedd ar y system ysgolion yn gyson â'r cwricwlwm newydd a'r egwyddorion sy'n sail iddo, ac yn eu cefnogi. Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r canllawiau, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn 2022/23 a 2023/24, a'u cyhoeddi ar ffurf canllawiau statudol i ddod i rym ym mis Medi 2024. Mae'n amserol felly bod GwE yn adolygu ei drefniadau gweithredu a'i strwythur staffio er mwyn sicrhau y gall fynd i'r afael yn effeithiol â gofynion y canllawiau.

### **3.0 Materion i gael sylw**

**3.1** Mae angen adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i:

- sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar ôl COVID i fynd i'r afael ag effaith y pandemig ar gynnydd a llesiant dysgwyr;
- sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol i weithredu'r cwricwlwm newydd a phob agwedd ar y daith ddiwygio;
- rhoi sylw i ddisgwyliadau cenedlaethol o ran gwella ysgolion, fel yr amlinellir yn y 'Canllawiau Gwella Ysgolion (Mehffin 2022)' a gyhoeddwyd yn ddiweddar; ac
- adeiladu ar sylfeini cryf dull cydweithredol o weithio a sefydlwyd yn rhanbarthol wrth i ni symud tuag at system hunan wella.

### **4.0 Argymhellion**

**4.1** Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a chaniatáu i'r gwasanaeth fynd ati i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol.

### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

**5.1** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd unrhyw fodel gweithredu yn cael ei ariannu trwy adnoddau sydd gennym eisoes ac i'r dyfodol.

### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

**6.1** Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

### **7.0 Goblygiadau Personél**

**7.1** Bydd GwE yn dilyn gweithdrefnau'r Awdurdod Lletyol yng nghyd-destun unrhyw ailstrwythuro.

### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

**8.1** Ymgynghorir yn llawn â staff GwE yn ystod y broses adolygu os bydd y Cyd-bwyllgor yn cytuno i fwrw ymlaen.

### **9.0 Amserlen**

**9.1** Yn weithredol yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf.



## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Nodir y bwriad i fynd ati i adolygu'r strwythur staffio a chadarnhaf fod cymeradwyo strwythur staffio GwE yn un o swyddogaethau'r Cydbwyllgor ei hun.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn croesawu'r bwriad i adolygu trefniadau gweithredu a strwythur staffio GwE yn nghydestun sefyllfa sy'n newid yn barhaus. Bydd swyddogion y gwasanaethau Cyllid yn cynorthwyo GwE gyda'r gwaith hwn fel bo'r angen. Mae rhan 5 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol wrth gyflawni'r adolygiad.



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 TACHWEDD 2022

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Llythyr i'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Darparu cofnod ffurfiol i'r Cyd-bwyllgor, yn dilyn trafodaethau a phenderfyniad yn y cyfarfod blaenorol ar 05/10/2022, yng nghyswllt y llythyr a anfonwyd at y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 11/10/2022.

### 2.0 Cefndir

2.1. Roedd y llythyr (Atodiad 1) ar ran Cyd-Bwyllgor GwE a anfonwyd at y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, yn mynegi pryder a chonsyrn am y pwysau cynyddol sy'n disgyn ar arweinyddion a staff ein hysgolion, ac yn enwedig felly wrth i Estyn ail-gydio yn eu cylch arolygu.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1. Roedd y llythyr yn croesawu yn fawr yr hyn gaiff ei amlygu yn y Canllaw Gwella Ysgolion newydd ac yn arbennig felly tŷn a naws y ddogfen. Roedd hefyd yn croesawu yn fawr y cyfeiriad y mae Prif Arolygydd ei Fawrhidi yn ei osod ar gyfer y corff rheoleiddio.

3.2. Byrdwn y neges yn yr ohebiaeth oedd tynnu sylw at y risg y mae'r cylch arolygu newydd yn ei gyflwyno i weithredu a gwireddu llawer o'r camau cadarnhaol y mae'r canllaw yn ei ofyn amdano.

3.3. Mae'r Cydbwyllgor yn llawn sylweddoli nad oes datrysiadau rhwydd i lawer o'r heriau a amlygwyd ond mae'r rhanbarth yn awyddus i ymgysylltu mewn modd

cadarnhaol a chynhyrchiol hefo Llywodraeth Cymru ac Estyn i adnabod ac i ddiffinio y ffordd mwyaf cadarnhaol o symud ymlaen.

3.4 Hyd yma, nid yw'r Cydbwyllgor wedi derbyn ymateb i'r llythyr.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi'n ffurfiol gynnwys y llythyr ac ystyried a oes angen unrhyw ohebiaeth bellach.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE, y Cyd-bwyllgor a Phenaethiaid y rhanbarth.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Llythyr i'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg dyddiedig 11.10.22

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,  
Bae Colwyn, LL29 8BY



post@gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru



GwE Gogledd Cymru

11/10/2022

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennwn atoch ar ran Cyd-Bwyllgor GwE, sydd yn cynnwys y chwe deilydd portffolio addysg ar draws Gogledd Cymru, i'ch hysbysu o'n pryder a'n consyrn am y pwysau cynyddol sy'n disgyn ar arweinwyr a staff ein hysgolion ac yn enwedig felly wrth i Estyn ail-gydio yn eu cylch arolygu.

Rydym yn croesawu yn fawr yr hyn gaiff ei amlygu yn y *Canllaw Gwella Ysgolion* newydd ac yn arbennig felly tŷn a naws y ddogfen. Mae'r cynnwys yn gosod cyfeiriad a disgwyliadau clir i ni oll ac yn amlygu'n ddeheuig a chywrain y diwylliant a'r ymddygiad y dylid ei arddel gan bob partner a rhanddeiliad sydd yn gweithredu oddi fewn i'r gyfundrefn addysg. Mae'r canllaw yn sicr yn cynnig cam cadarnhaol ymlaen.

Rydym hefyd yn croesawu yn fawr y cyfeiriad y mae Prif Arolygydd ei Fawrhydi yn ei osod ar gyfer y corff rheoleiddio. Roedd hi'n chwa o awyr iach cael ei glywed yn rhannu ei weledigaeth hefo ni yn ein cynhadledd i arweinwyr yn Llandudno diwedd Medi.

Byrdwn ein neges yn yr ohebiaeth hon ydy tynnu eich sylw at y risg y mae cylch arolygu newydd yn ei gyflwyno i weithredu a gwireddu llawer o'r camau cadarnhaol y mae'r canllaw yn ei ofyn ohonom ac yn enwedig felly os na ellir sicrhau bod gweledigaeth a deisfyiadau y Prif Arolygydd yn cael eu rhoi ar waith ymhob arolygiad ar draws pob sector.

*Dear Minister,*

*We are writing to you on behalf of the GwE Joint Committee, which includes the six portfolio holders for education across North Wales, to inform you of our concern about the increasing pressures on the leaders and staff of our schools and especially so as Estyn resumes its inspection cycle.*

*We very much welcome what is highlighted in the new School Improvement Guidance, especially the tone of the document. The content sets clear direction and expectations for us all and skilfully highlights the culture and behaviour that should be espoused by all partners and stakeholders who operate within the education system. The guidance certainly offers a positive step forward.*

*We also welcome greatly the direction His Majesty's Chief Inspector is setting for the regulatory body. It was a breath of fresh air to hear him share his vision with us at our conference for leaders in Llandudno at the end of September.*

*The thrust of our message in this correspondence is to draw your attention to the risk that a new inspection cycle presents to the implementation and realisation of many of the positive steps that the guidance requires of us and especially so if it cannot be ensured that the Chief Inspector's vision and requests are implemented in every inspection across every sector.*



Tud. 132



[www.gwegogledd.cymru](http://www.gwegogledd.cymru)



0300 500 8087

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae prosesau a gweithdrefnau gwerthuso a gwella mewn ysgolion wedi gorfod cael eu haddasu a'u cymhwyso i ymateb i'r sefyllfaoedd wirioneddol heriol yr oedd y sectorau yn eu hwynebu. Diau, ymhob ysgol, y gorfu i uwch arweinwyr saernïo ffocws ac egni ar reoli risg ac ar sicrhau diogelwch a lles eu dysgwyr a'u staff.

Ystyrier yr her i arweinwyr fod yn gwerthuso ansawdd ac effaith y dysgu a'r addysgu oddi fewn i batrwm gwaith:

- pan am gyfnodau helaeth o'r flwyddyn roedd pawb adref ac yn gweld ei gilydd ar sgrin yn unig.
- ble am gyfnod roedd y plant mewn swigod ac yn methu cyd-weithio'n effeithiol yn y dosbarth mewn parau a grwpiau.
- pan fo pawb am gyfnod yn gorfod gwisgo mwgwd neu orchudd wrth gyfathrebu.
- pan fo'r athro am ran o'r flwyddyn yn gorfod gweithredu tu ôl i sgrin blastig ym mhen blaen y dosbarth.
- pan nad oedd modd i athro gyflwyno adborth ysgrifenedig ar bob llyfr a thasg.
- pan fo angen cadw llyfrau am dros 72 awr cyn mynd ati i'w craffu.
- pan oedd hanner y plant yn bresennol yn y dosbarth ond yr hanner arall yn gorfod gweithio o adref.

Enghreifftiau yn unig o senarios ydy'r uchod, wrth gwrs, ond maent oll yn amlygu'n glir pa mor anodd oedd cynnal prosesau hunan-werthuso cadarn a phwrpasol a fyddai'n fecanwaith ar gyfer gwella. Mewn rhai ardaloedd mwy difreintiedig, roedd yr heriau i arweinwyr yn sylweddol ddwysach wrth gwrs.

Pan yn arolygu ysgolion a lleoliadau mae gweithredu Estyn yn ddarostyngedig i ofynion y Fframwaith Arolygu – a honno yn fframwaith sydd brin wedi newid o ran gofynion a disgwyliadau ers y cyfnod cyn Covid.

*Over the past two years, schools' evaluation and improvement processes and procedures had to be adapted and applied to respond to the really challenging situations that the sectors were facing. Undoubtedly, in every school, senior leaders had to re-direct focus and energy on risk management and on ensuring the safety and well-being of their learners and staff.*

*Consider the challenge leaders face in evaluating the quality and impact of learning and teaching within a work pattern:*

- *when, for large periods of the year, everyone was at home and only saw each other on screen.*
- *when, for a period, the children were in bubbles and unable to work together effectively in the classroom in pairs and groups.*
- *when everyone, for a period, had to wear a mask or face-covering when communicating.*
- *when the teacher, for part of the year, had to teach behind a plastic screen at the front of the class.*
- *when it wasn't possible for a teacher to provide written feedback on each book and task.*
- *when books needed to be kept for over 72 hours before they were scrutinised.*
- *when half the children were present in the classroom but the other half had to work from home.*

*Of course, the above are only examples of scenarios, but they all clearly highlight how difficult it was to carry out robust and purposeful self-evaluation processes that would be a mechanism for improvement. In some more deprived areas, the challenges for leaders were, of course, significantly more intense.*

*When inspecting schools and locations, Estyn's work is subject to the requirements of the Inspection Framework - a framework that has hardly changed in terms of requirements and expectations since the pre-Covid period.*



Yn y tymor byr, mi rydan ni yn pryderu am pa mor barod ydy llawer o'n hysgolion i fod yn gallu ymateb yn hyderus i'r gofynion a'r disgwyliadau sy'n cael eu hamlygu yn y fframwaith a'r risg sy'n deillio o hynny.

Prin yw'r ysgolion sydd wedi cyrraedd man lle maent yn gallu gweithredu gyda'r un hyder a'r un miniogrwydd â'r hyn welwyd cyn y pandemig. Mae ein trafodaethau gyda phenaethiaid rhanbarthol yn amlygu'n glir y sefyllfaoedd wirioneddol heriol maent yn eu hwynebu ers Medi ac ymhlith y prif gonsyrn fynegir ganddynt gellir rhestru:

- dysgwyr yn ei chael yn anodd ymgysylltu hefo'u dysgu
- ymddygiad yn fwy heriol nag y bu erioed
- presenoldeb yn anghyson
- problemau iechyd meddwl ar gynydd ac ar daflwybr wirioneddol bryderus
- dysgwyr mwyaf bregus, ac eraill, wedi colli gafael neu lithro'n ol mewn sgiliau sylfaenol megis llafaredd a darllen
- trosiant sylweddol mewn arweinyddiaeth - a phenaethiaid ac arweinwyr newydd wedi dod i mewn i'r gyfundrefn ond hefo fawr ddim profiad o weithredu yn y rôl tu hwnt i'r gweithredu 'gweithredol' 'welwyd dros Covid.

Pan fo Estyn yn ymweld ag ysgol, oddi fewn i Faes Arolygu 1 byddant yn canolbwyntio ar safonau a chynnydd mewn dysgu ac yn benodol felly yn y medrau. Ymhob ysgol bron, mae yna bryder am y cynnydd hwnnw oherwydd effaith andwyol dwy flynedd o bandemig.

Oddi fewn i Faes Arolygu 2 byddant yn edrych ar les dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu. Rydan ni eisoes yn gwybod bod hyn yn destun pryder ar draws nifer uchel o ysgolion.

Oddi fewn i Faes Arolygu 5 byddant yn mesur pa mor effeithiol y mae arweinwyr wedi bod

*In the short term, we are concerned about how prepared many of our schools are to be able respond confidently to the requirements and expectations that are highlighted in the framework and the risk that results from that.*

*There are few schools that have reached a point where they can operate with the same confidence and sharpness as what was seen before the pandemic. Our discussions with regional heads clearly highlight the truly challenging situations they have been facing since September and among the main concerns expressed by them are:*

- *learners find it difficult to engage with their learning*
- *behaviour is more challenging than ever*
- *attendance is inconsistent*
- *mental health problems on the rise and on a truly worrying trajectory*
- *the most vulnerable learners, and others, have lost their grasp or slipped back in basic skills such as oracy and reading*
- *significant turnover in leadership - new headteachers and leaders have come into the system but have little experience of acting in the role beyond the 'operational' actions which were required of them during Covid.*

*When Estyn visits a school, within Inspection Area 1 they will focus on standards and progress in learning and specifically in skills. In almost every school, there is concern about this progress due to the adverse effects of two years of pandemic.*

*Within Inspection Area 2 they will look at the well-being of learners and their attitudes to learning. We already know that this is a cause for concern across a large number of schools.*

*Within Inspection Area 5 they will measure how effectively leaders have been maintaining high*



yn cynnal ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan yn y ddarpariaeth. Eto, mae'n hysbys i ni oll, ymhob ysgol bron, mai llithriadau yn hytrach na chynnydd sydd i'w weld ar draws sawl agwedd.

Yn ychwanegol i hyn, nid oes unrhyw arweiniad wedi'i gyflwyno gan Estyn o ran sut bydd cyd-destun ysgol yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fo gweithgareddau arsylwi a chraffu yn digwydd ganddynt mewn arolygiad. Mae hwn yn fater o wir bryder i ni oll ac yn gosod yr ysgolion hynny sydd yn gweithredu oddi fewn i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o dan anfantais sylweddol. O leiaf gyda'r model hanesyddol o ddadansoddi data cyflawniad, roedd modd edrych ar berfformiad ysgol yng nghyd-destun ysgolion tebyg. Nid felly pan fo craffu ac arsylwi yn digwydd a'r tebygolrwydd ydy bod cymhwyso cyd-destun yn disgyn ar fymppyw arolygyr unigol.

Croesewir crisialder hefyd ar y pwynt dilynol - oddi fewn i'r drefn ddiwygiedig o arolygu, os bydd ysgol wedi adnabod diffygion neu lithriadau [boed hynny mewn sgiliau neu ddiffyg cynnydd ymhlith grwpiau o ddysgwyr neu mewn agweddau at ddysgu] ac os bydd ysgol yn gallu tystio eu bod yn gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â'r diffygion yna ond nad ydy effaith y gweithredu hwnnw i'w weld mewn safonau hyd yma - a fydd hynny yn debygol o'u cadw allan o unrhyw weithgaredd dilynol? Ynte a fydd y ffaith NAD oes effaith ac 'impact' ar safonau yn golygu'r angen i ymweliad pellach ymhen y flwyddyn? Os mai'r diwethaf sy'n wir, yna rhagwelir cynnydd sylweddol a chyflym yn y ganran o ysgolion fydd yn cael eu gosod mewn categori neu ddilyniant.

Mewn cyfnod pan fo recriwtio a dargadwad yn cyflwyno her sylweddol i ni oll, fe allai hyn arwain at nifer nid ansylweddol o arweinwyr ac athrawon yn cymryd y penderfyniad anffodus i adael y proffesiwn.

*quality or improving weak aspects of the provision. Again, as is known to all of us, in almost every school, it is slippages rather than progress that can be seen across many aspects.*

*In addition to this, no guidance has been presented by Estyn in terms of how the context of a school will be taken into account when lesson observation and scrutiny activities are carried out by them during an inspection. This is a matter of real concern for all of us and places those schools that operate within the most deprived areas at a significant disadvantage. At least with the historical model of analysing attainment data, it was possible to look at a school's performance in the context of similar schools. Not so with scrutiny and observation and the likelihood is that the application of context would be at the whim of individual inspectors.*

*Clarity would also be welcomed on the following point - within the revised inspection process, if a school has identified shortcomings or slippages [whether they be in skills or a lack of progress among groups of learners or in attitudes to learning], and if a school is able to evidence that they are implementing plans to tackle those shortcomings but that the effect of that action is not reflected in standards to date - will that be likely to keep them out of any follow-up activity? Or will the fact that there is NO impact on standards mean that there is a need for a further visit within a year? If the latter is true, then a significant and rapid increase is predicted in the percentage of schools that will be placed in a category or follow-up.*

*At a time when recruitment and retention present a significant challenge to us all, this could lead to a not inconsiderable number of leaders and teachers taking the unfortunate decision to leave the profession.*



Rydym yn llawn sylweddoli nad oes datrysiadau rhwydd i lawer o'r heriau gaiff eu rhestru ond rydym yn awyddus i ymgysylltu mewn modd cadarnhaol a chynhyrchiol hefo Llywodraeth Cymru ac Estyn i adnabod ac i ddiffinio y ffordd mwyaf cadarnhaol o symud ymlaen.

Gallwn eich sicrhau, yn gwbl ddidwyll, y cewch ein cefnogaeth lawn ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich sylwadau fel ein bod oll yn gallu cyd-weithio'n effeithiol i wireddu disgwyliadau y *Canllaw Gwella Ysgolion* newydd.

Yn gywir,

Cyng. Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) a Chadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE  
Cyng. Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint)  
Cyng. Beca Brown (Cyngor Gwynedd)  
Cyng. Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)  
Cyng. Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam)  
Cyng. Gill German (Cyngor Sir Ddinbych)

Copi i:

Owain Lloyd - Cyfarwyddwr Addysg a'r Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru  
Owen Evans - Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

*We are fully aware that there are no easy solutions to many of the challenges listed but we are keen to engage in a positive and productive way with the Welsh Government and Estyn to identify and define the most positive way forward.*

*We can assure you, in all good faith, that you will have our full support and we look forward to receiving your comments so that we can all work together effectively to realise the expectations of the new School Improvement Guidance.*

*Yours sincerely,*

*Cllr. Julie Fallon (Conwy County Borough Council) and Chair of Joint Committee  
Cllr. Ian Roberts (Flintshire County Council)  
Cllr. Beca Brown (Gwynedd Council)  
Cllr. Ieuan Williams (Anglesey County Council)  
Cllr. Phil Wynn (Wrexham County Borough Council)  
Cllr. Gill German (Denbighshire County Council)*

*Copy to:*

*Owain Lloyd - Director of Education and the Welsh Language, Welsh Government  
Owen Evans – His Majesty's Chief Inspector for Education and Training in Wales*

